

Rhif: WG28856



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Apeliadau, costau a symiau dyddiol safonol

Mawrth 2017

Tabl Cynnwys

1.	Cyflwyniad	2
2.	Ymatebion	4
3.	Crynodeb o'r ymatebion	7

Atodiadau

- A. Rhestr o ymatebwyr yn ôl categori

1. Cyflwyniad

1.1 Lansiodd y ddogfen ymgynghori "Apeliadau, Costau a Symiau Dyddiol Safonol" ar 10 Awst 2016 ac roedd ar agor i ymatebion tan 4 Tachwedd 2016. Nodwyd cyfanswm o 16 o gwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori, gyda ffurflen safonol er hwylustod. Gwnaed sylwadau y tu allan i'r cwestiynau safonol hefyd.

1.2 Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf. Fe'i rhennir yn ddwy adran arall.

1.3 Mae Adran 2 yn rhoi crynodeb ystadegol cyffredinol o'r ymgynghoriad a manylion ynglŷn â sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad.

1.4 Mae Adran 3 yn rhoi crynodeb o'r holl ymatebion a gyflwynwyd. Mae hyn yn cynnwys:

- Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol o dan bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad;
- Dadansoddiad ystadegol o'r safbwyntiau a fynegwyd ar bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad, lle y gellid llunio ystadegau;
- Crynodeb a dadansoddiad o'r themâu allweddol sy'n deillio o bob cwestiwn;
- Ymateb Llywodraeth Cymru i'r dadansoddiad hwnnw;
- Esboniad o'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn dilyn yr ymateb i bob cwestiwn.

1.5 Wrth ddadansoddi a chrynhofio'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn, ni fydd yr adroddiad hwn yn ymdrin â'r canlynol:

- **Sylwadau sy'n ailystyried yr egwyddorion a nodwyd yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015:** Gofynnwyd am sylwadau ar yr agwedd hon yn y papur ymgynghori 'Cynllunio Cadarnhaol' ar y Bil Cynllunio drafft i Gymru. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi craffu ar y Ddeddf ac wedi'i phasio;
- **Ceisiadau am eglurder ynglŷn â manylion:** Y bwriad yw y bydd y prosesau apeliadau a chostau diwygiedig, pan ddônt i rym, yn cael eu hategu gan ganllawiau. Bydd y canllawiau hynny yn ceisio egluro materion manwl a godwyd yn y papur ymgynghori hwn;
- **Sylwadau ar achosion neu benderfyniadau unigol gerbron neu a wnaed gan Weinidogion Cymru:** O ystyried rôl statudol Gweinidogion

Cymru yn y broses gynllunio, nid oes modd iddynt hwy, nac unrhyw un arall yn Llywodraeth Cymru, wneud sylwadau ar benderfyniadau y mae'n rhan ohono. Pe baent yn gwneud hynny gallai ragfarnu safbwynt Llywodraeth Cymru.

- **Materion y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad:** Lle y gwnaed sylwadau sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn ond mewn perthynas â materion y tu hwnt i gwmpas y cwestiwn, gwnaed pob ymdrech i'w crynhoi o dan y cwestiwn cywir. Fodd bynnag, nid ymdrinnir â sylwadau y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn. Mae'r materion hynny yn cynnwys pynciau sydd y tu allan i gwmpas Cynllunio Gwlad a Thre yn ogystal â materion polisi nad ydynt yn rhan o gymhwysedd Gweinidogion Cymru;
- **Sylwadau sy'n dehongli'r polisi arfaethedig a'r ddeddfwriaeth gyfredol yn anghywir:** Cyflwynwyd ymatebion sy'n gofyn am newidiadau polisi, sydd mewn gwirionedd, yn adlewyrchu'r bwriadau a nodir yn y papur ymgynghori neu'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol na fydd yn cael ei newid.

2. Ymatebion

- 2.1 Ar 10 Awst 2016 hysbyswyd dros 200 o randdeiliaid, gan gynnwys unigolion a sefydliadau, drwy e-bost bod yr ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi. Daw'r rhain o'r rhestr ymgynghori graidd a ddelir gan Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys pob awdurdod cynllunio lleol ("ACLlau") yng Nghymru, cyrff cyhoeddus, grwpiau â diddordeb arbennig a grwpiau eraill. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd cyflwyniad ar destun y papur hefyd yng nghynhadledd flynyddol yr Arolygiaeth Gynllunio i randdeiliaid a gynhaliwyd yn Stadiwm y Principality, Caerdydd ar 16 Medi.
- 2.2 Cyflwynwyd 23 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd. Mae pob un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael ei ddarllen a'i ystyried fel rhan o'r dadansoddiad hwn.
- 2.3 Darparwyd ffurflen ymgynghori fel atodiad i'r ddogfen ymgynghori ac ar wahân ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i ymatebwyr nodi i ba gategori o blith chwe chategori bras o ymatebwyr yr oedd yn perthyn. Dengys Tabl 1 isod y dadansoddiad o'r ymatebwyr.

Tabl 1 - Dadansoddiad o'r Ymatebwyr		
Categori	Nifer	% y cyfanswm
Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	2	9%
Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	11	48%
Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	4	17%
Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Diddordeb	3	13%
Y Sector Gwirfoddol	0	0%
Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	3	13%
Cyfanswm	23	

- 2.4 Cododd cwestiynau 1- 16 yr ymgynghoriad gwestiynau penodol ynglŷn â pholisi. Roedd y cwestiynau yn gofyn am un o'r ymatebion canlynol; 'ydw/ydyn', 'ydw/ydyn (yn amodol ar sylwadau pellach)' neu 'nac ydw/ydyn'. Cyflwynir trosolwg ystadegol o'r ymatebion yn dangos natur yr ymatebion i'r cwestiynau fel rhan o'r dadansoddiad o bob cwestiwn yn adran 3 o'r ddogfen

hon. Lle nad oedd ymatebwyr wedi nodi ateb penodol, cafodd y rhain eu hystyried a'u cofnodi fel 'ddim yn gwybod'.

Tabl 2: Cwestiynau'r Ymgynghoriad	
C1	A ydych yn cytuno â'n cynigion gweithdrefnol ynghylch datganiadau achos llawn i'w cyflwyno gydag apêl o dan y rhan fwyaf o amgylchiadau? Os nad ydych, pam?
C2	A ydych yn cytuno â'r diffiniad o 'ddatganiad achos llawn' ym mharagraff 2.10 (<i>o'r papur ymgynghori</i>)? Os nad ydych, pam?
C3	A ydych yn cytuno â'n cynigion i alluogi Gweinidogion Cymru (neu'r Arolygiaeth Gynllunio) i bennu'r weithdrefn ar gyfer apeliadau yn erbyn hysbysiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynnal a chadw tir yn ddiogel, a phenderfynu ar yr apeliadau hynny? Os nad ydych, pam?
C4	A ydych yn cytuno â'n cynigion mewn perthynas â newidiadau i'r weithdrefn gychwynnol a'r weithdrefn a ddilynir gan bartion wrth gyflwyno dogfennau craidd? Os nad ydych, pam?
C5	A ydych yn cytuno â'n cynigion ynghylch Datganiadau o Dir Cyffredin? Os nad ydych, pam?
C6	A ydych yn cytuno â'n cynigion ynghylch yr archwiliad dull cymysg ar gyfer apeliadau a cheisiadau a alwyd i mewn? Os nad ydych, pam?
C7	A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno terfyn geiriau o 3,000 fesul pwnc ar gyfer sylwadau pellach y mae'r Arolygydd yn gofyn amdanynt wrth ystyried apêl neu gais a alwyd i mewn? Os nad ydych, pam?
C8	A ydych yn cytuno â'r amgylchiadau lle gellir amrywio cais yn achos apêl? Os nad ydych, pam?
C9	A ydych yn cytuno â'r amgylchiadau lle gellir cyflwyno gwybodaeth newydd yn ystod apêl neu gais a alwyd i mewn? Os nad ydych, pam?
C10	A ydych yn cytuno â'n cynigion i gyflwyno terfyn amser o 6 mis ar gyfer apeliadau tystysgrif cyfreithlondeb yn erbyn penderfyniad gan ACLI? Os nad ydych, pam?
C11	A ydych yn cytuno y dylai Gweinidogion Cymru allu adennill eu costau eu hunain? Os nad ydych, pam?
C12	A ydych yn cytuno â'r sail dros ymddygiad afresymol a nodir yn y fersiwn ddrafft o'r canllawiau wedi'u diweddarau (yn Atodiad C)? Os nad ydych, nodwch seiliau amgen neu ychwanegol.
C13	A ydych yn cytuno â'r broses ar gyfer dyfarnu costau a nodir yn Atodiad A i'r fersiwn ddrafft o'r canllawiau wedi'u diweddarau (yn Atodiad C)? Os nad ydych, pam?
C14	A ddylid cynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol yn y fersiwn ddrafft o'r canllawiau wedi'u diweddarau (yn Atodiad C)?

C15	A ydych yn cytuno â'r dull diwygiedig o godi symiau dyddiol am weithdrefnau cymhwyso ac ymchwiliadau lleol? Os nad ydych, pam?
C16	A ydych yn cytuno â'r symiau dyddiol safonol a gynigir yn Atodiad Ch? Os nad ydych, pam?

- 2.5 Ceir rhestr o'r ymatebwyr a'r categorïau a nodwyd ganddynt yn Atodiad A i'r adroddiad hwn. Lle mae ymatebwyr wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi eu manylion, byddant yn ymddangos fel 'Dienw' o dan y categori priodol. Caiff 'Mynegai o Ymatebion' a chopïau o'r ymatebion i'r ymgynghoriad eu cyhoeddi ar eu ffurf wreiddiol (gydag enwau a chyfeiriadau wedi'u dileu, os gofynnir am hynny) ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

3. Crynodeb o'r Ymatebion

C1	A ydych yn cytuno â'n cynigion gweithdrefnol ynghylch datganiadau achos llawn i'w cyflwyno gydag apêl o dan y rhan fwyaf o amgylchiadau? Os nad ydych, pam?
<p>Fel arfer byddai datganiad achos llawn yn cynnwys y manylion llawn sy'n cefnogi dadleuon apelydd o blaid canlyniad penodol a chopïau o unrhyw wybodaeth neu ddogfennau y bydd yr apelydd yn dibynnu arnynt fel tystiolaeth. Mae C1 yn ymwneud â chynigion i helpu Gweinidogion Cymru wneud penderfyniadau'n gyflymach, lle bydd yn ofynnol i'r apelydd gyflwyno ei ddatganiad achos llawn ar adeg cyflwyno eu hysbysiad o apêl.</p>	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw /Ydyn	Ydw/Ydyn (Yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydw/ydyn	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	0	0	1	1	2
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	7	2	1	1	11
C	Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	1	0	1	4
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Diddordeb	1	1	1	0	3
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	0	0
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	1	0	1	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		11	4	4	4	23

	Ydw/Ydyn, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw/ydyn
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	15	4
Cyfanswm y ganran	79%	21%

Adolygiad ystadegol

- 3.1 Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i gyflwyno datganiad achos llawn o'r cychwyn cyntaf. Ymhlith y grwpiau hynny o ymatebwyr a gytunodd, ACLlau a Chyrff Proffesiynol / Grwpiau â Diddordeb a gytunodd fwyaf â'r cynigion. Ymatebwyr o blith y categori Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio oedd yn gwrthwynebu'r cynigion ar y cyfan. Cymysg fu'r ymateb gan grwpiau eraill o ymatebwyr.

Themâu allweddol

- 3.2 Mae'r themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 1 fel a ganlyn:
- Cafwyd cytundeb a chefnogaeth gyffredinol i'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd gyflwyno datganiad achos llawn ar y cychwyn;
 - Mynegwyd rhai pryderon ynglŷn â'r terfynau amser byrrach a gynigiwyd, yn enwedig mewn perthynas ag apeliadau gorfodi ac apeliadau yn erbyn diffyg penderfyniad.

Trosolwg

- 3.3 Cafwyd cytundeb a chefnogaeth gyffredinol i'r cynigion i'w gwneud yn ofynnol i apelydd gyflwyno datganiad achos llawn ar y cychwyn.
- 3.4 Cytunodd y mwyafrif â'r cynnig a nododd sawl ymatebydd y bydd yn galluogi ACLlau i gyflwyno datganiad â mwy o ffocws sy'n cefnogi'r cysyniad o roi mwy o bwyslais ar gamau rhagarweiniol y broses. Nododd ymatebwyr a gytunodd â'r cynnig hefyd y byddai'n ei gwneud yn haws i ACLlau a thrydydd partïon baratoi datganiad ffeithiol a llawn gyda mantais datgelu llawn.
- 3.5 Gofynnwyd am eglurder, o ran gweithdrefnau'r ymchwiliad, ynglŷn â'r defnydd o ddatganiadau o dystiolaeth ysgrifenedig. Tybiodd yr ymatebydd, a oedd yn cefnogi'r newid a gynigiwyd, y byddai angen datganiad o dystiolaeth ysgrifenedig o hyd cyn ymchwiliad yn hytrach nag ar y cam cyflwyno. Nododd rhai mai'r hyn a fyddai'n hollbwysig oedd sicrhau bod datganiad achos apelydd yn ddigon manwl i gadarnhau natur yr holl dystiolaeth y maent yn bwriadu dibynnu arni yn eu datganiadau o dystiolaeth ysgrifenedig. Gofynnodd yr ymatebydd am eglurder hefyd ynghylch lle y gellir cyflwyno tystiolaeth ychwanegol os caiff y weithdrefn apelio ei newid yn ymchwiliad.

- 3.6 Codwyd pryderon yn bennaf gan gyrrff busnes a phroffesiynol y bydd y newidiadau a gynigiwyd yn rhoi'r ymgeisydd o dan anfantais ac na fydd y newidiadau yn lleihau'r amser a gymerir i benderfynu ar apêl. Eu dadl hwy yw bod prif faterion apêl yn amlwg o'r cychwyn ac yn seiliedig ar y rheswm/rhesymau dros wrthod cais yn amlach na pheidio.
- 3.7 Codwyd rhai pryderon hefyd ynglŷn ag achos apêl yn erbyn diffyg penderfyniad. Am na fydd pryderon/barn ffurfiol ACLI yn hysbys o bosibl, byddai'n anodd paratoi datganiad achos ar adeg cyflwyno apêl. O ran apeliadau yn erbyn diffyg penderfyniad, neu geisiadau a alwyd i mewn, codwyd pryderon hefyd y byddai'r ymatebion hwyr i ymgynghoriad yn golygu oedi cyn y gellir cyflwyno datganiad achos cynhwysfawr gydag apêl yn erbyn diffyg penderfyniad neu gais a alwyd i mewn.
- 3.8 Gofynnwyd am eglurder ynglŷn â'r datganiad ym mharagraff 2.25 o'r papur ymgynghori ynglŷn â'r amgylchiadau lle y gall caniatâd am estyniad amser ar gyfer cyflwyno datganiad achos llawn yn achos apeliadau gorfodi gael ei roi.
- 3.9 Mynegwyd pryderon y gall trydydd partïon a all fod yn llai profiadol a threfnus o ran ymateb i apêl ei chael hi'n anodd cydymffurfio â'r terfynau amser byrrach a gynigiwyd.

C1	Ymateb Llywodraeth Cymru
	<p>Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i ddatganiad achos llawn gael ei gyflwyno ar y cychwyn cyntaf, lle y bo modd.</p> <p>Drwy ofyn i apelydd gyflwyno datganiad achos llawn ynghyd â'r hysbysiad o apêl, rydym o'r farn y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr amser a gymerir i benderfynu ar apêl. Bydd ACLlau a phartïon â diddordeb yn cael gweld y dystiolaeth y mae apelydd yn dymuno dibynnu arni, a thrwy hynny'n sicrhau bod eu datganiadau achos llawn eu hunain ond yn ymdrin â'r materion hynny a godwyd gan apelydd. Heb wybod beth yw datganiad achos llawn yr apelydd, mae ACLlau a phartïon a diddordeb yn aml yn cyflwyno amddiffyniad yn erbyn dadleuon na fydd yr apelydd yn eu cynnig o bosibl.</p> <p>Ar gyfer apeliadau yn erbyn diffyg penderfyniad, mae apelwyr yn cael 6 mis i gyflwyno hysbysiad o apêl. Mae hyn yn rhoi cryn dipyn o amser i baratoi datganiad achos llawn. Er nad yw'r apelydd wedi gweld safbwynt yr ACLI ar y cais mewn achosion o'r fath o reidrwydd, nid yw hyn yn</p>

wahanol i'r broses bresennol.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder ynglŷn â rhai materion. O ran estyniad amser posibl ar gyfer cyflwyno datganiad achos llawn yn achos apeliadau gorfodi, mae'r amgylchiadau a nodir yn y papur ymgynghori yn cyfeirio at apeliadau gorfodi cymhleth o bosibl, lle nad oes modd cydymffurfio â'r terfyn amser rhagnodedig a gynigir ar gyfer cyflwyno amddiffyniad llawn a theg i'r hysbysiad gorfodi. O dan amgylchiadau o'r fath, byddai'n ofynnol i apelwyr gyflwyno cais am estyniad amser i'r Arolygiaeth Gynllunio a'r Arolygiaeth Gynllunio fyddai'n penderfynu a yw amser ychwanegol i gyflwyno datganiad achos llawn yn dderbyniol.

Gofynnwyd am eglurder hefyd ynglŷn â'r defnydd o ddatganiadau o dystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer ymchwiliadau. Y bwriad o hyd yw bod datganiadau o'r fath yn ofynnol gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Mae'n rhaid i'r rhain gael eu cyflwyno erbyn 4 wythnos fan bellaf cyn dyddiad ymchwiliad, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

O ran tystiolaeth ychwanegol, dylai'r holl wybodaeth y mae apelydd yn bwriadu dibynnu arni gael ei chynnwys fel rhan o'r datganiad achos llawn. Cynigir y dylid gwahardd materion newydd rhag cael eu codi yn dilyn hysbysiad o apêl, ac eithrio o dan yr amgylchiadau a nodir yn y papur ymgynghori. Nid yw hyn yn golygu y bydd gwaharddiad yn erbyn cyflwyno gwybodaeth newydd, cyhyd â'i bod yn bodloni un o'r amgylchiadau rhagnodedig.

Y camau nesaf

- 3.10 O ystyried y manteision i bob parti a'r potensial i wella tryloywder a chysondeb, bwriadwn weithredu ar y cynigion ar gyfer cyflwyno datganiadau achos llawn yn gynt. Bydd datganiadau o'r fath yn ofynnol ochr yn ochr â hysbysiad o apêl, lle y bo modd, neu yn achos ceisiadau a alwyd i mewn, o fewn 4 wythnos i'r hysbysiad o gyfeiriad. Ni fydd apêl na chais a alwyd i mewn yn dechrau nes bod y datganiad achos llawn wedi dod i law.
- 3.11 O ystyried y terfynau amser byr o bosibl ar gyfer apeliadau gorfodi ac apeliadau cysylltiedig, byddwn yn cynnig hyblygrwydd i'r Arolygiaeth Gynllunio roi amser ychwanegol. Bydd penderfyniad i roi estyniad amser yn ôl disgrisiwn llwyr yr Arolygydd Cynllunio yn unig, a dim ond pan fydd achos mor gymhleth fel y bo angen rhagor o amser i baratoi datganiad achos llawn y caiff ei roi.

C2	A ydych yn cytuno â'r diffiniad o 'ddatganiad achos llawn' ym mharagraff 2.10 (o'r papur ymgynghori)? Os nad ydych, pam?
Er mwyn sicrhau cysondeb ym mhob math o apêl y mae'r newidiadau a gynigir yn effeithio arni, cynigir y dylid diffinio 'datganiad achos llawn'. Gofynnodd yr ymgynghoriad a gytunodd ymatebwyr â'r diffiniad a gynigiwyd.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw /Ydyn	Ydw/Ydyn (Yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydw/ydyn	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	0	1	1	0	2
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	8	2	0	1	11
C	Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	1	0	2	4
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Diddordeb	0	3	0	0	3
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	0	0
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	0	1	1	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		9	8	2	4	23

	Ydw/Ydyn, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw/ydyn
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	17	2
Cyfanswm y ganran	89%	11%

Adolygiad ystadegol

- 3.12 Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr â'r diffiniad o'r datganiad achos llawn. Ymhlith y grwpiau hynny o ymatebwyr a gytunodd, ACLlau a Chyrff Proffesiynol / Grwpiau â Diddordeb a gytunodd fwyaf â'r cynigion fel cyfran. Dim ond ymatebwyr o blith y categorïau Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio ac Eraill a wrthwynebodd y cynigion. Nid oedd unrhyw grŵp yn anghytuno'n gyffredinol â'r cynnig.

Themâu allweddol

- 3.13 Mae'r themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 2 fel a ganlyn:

- Cafwyd cytundeb a chefnogaeth gyffredinol i'r cynigion i ddiffinio 'datganiad achos llawn';
- O'r rhai a gytunodd, gwnaed rhai sylwadau yn awgrymu diwygiadau i'r diffiniad er eglurder.

Trosolwg

- 3.14 Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y dylid diffinio 'datganiad achos llawn' gan gefnogi ein cynigion i wneud hynny. Roedd un ymatebydd o'r farn mai mantais y datganiad achos llawn yw y byddai'n ddigon manwl i'w gwneud yn bosibl i apêl fynd rhagddi heb fod angen cyflwyno dogfennau eraill, yn y rhan fwyaf o achosion.
- 3.15 Roedd yr awgrymiadau i ddiwygio'r diffiniad a gynigiwyd fel a ganlyn:
- Awgrym y dylai'r diffiniad gyfeirio at 'pob dogfen' yn hytrach nag 'unrhyw ddogfennau';
 - Awgrym y dylai'r diffiniad hefyd nodi bod angen cysylltu manylion achos â'r polisi cynllunio cenedlaethol a lleol perthnasol.
- 3.16 Mae'r tri ymatebydd a gytunodd â'r cynnig wedi gofyn am gadarnhad y byddai'r gallu i gyflwyno gwybodaeth ychwanegol yn parhau.
- 3.17 Mynegwyd rhywfaint o anghytundeb gan Fusnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio ac eraill o ran y diffiniad a gynigiwyd mewn perthynas ag apeliadau gorfodi oherwydd y terfynau amser dan sylw a gallu'r apelydd i goladu'r wybodaeth o fewn y terfyn amser hwn. Awgrymodd ymatebydd y dylai datganiad achos ofyn am ddisgrifiad o'r dystiolaeth (megis rhestr o ddogfennau) ond nad yw'n gofyn am i'r dystiolaeth gael ei chyflwyno ar adeg cyflwyno'r apêl.

- 3.18 Awgrymodd ymatebydd, a gytunodd â'r diffiniad a gynigiwyd, addasiad er mwyn sicrhau y byddai'r datganiad achos llawn yn cyfeirio at ddogfennau yn hytrach nac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu cyflwyno, fel yr awgrymwyd gan yr ymatebwyr ym mharagraff 3.17.
- 3.19 Rhoddodd un ymatebydd, a gytunodd â'r diffiniad a gynigiwyd, bwyslais ar bwysigrwydd gorfodi'r egwyddor na ellid codi unrhyw faterion eraill na thystiolaeth arall a all danseilio'r datganiad gwreiddiol a dderbyniwyd gan yr Arolygiaeth.
- 3.20 Fodd bynnag, awgrymodd un ymatebydd, a gytunodd â'r diffiniad a gynigiwyd, fod angen eglurder ynghylch y gwahaniaethau rhwng apeliadau y gwrandewir arnynt yn ystod Ymchwiliad a phob dull arall.

C2	Ymateb Llywodraeth Cymru
	<p>Bwriedir cadw'r diffiniad o 'datganiad achos llawn' a geir yn y ddogfen ymgynghori gan ei fod yn cwmpasu'r holl wybodaeth berthnasol y dylid ei chynnwys. Bwriadwn wneud rhai addasiadau o ran apeliadau gorfodi er mwyn sicrhau bod y datganiad achos llawn yn ymdrin â'r seiliau dros apelio. O ran yr awgrym y dylai'r diffiniad nodi bod angen cysylltu manylion achos â'r polisi cynllunio cenedlaethol a lleol perthnasol, caiff hyn ei gynnwys mewn canllawiau.</p> <p>O ran sylwadau sy'n awgrymu bod y terfynau amser ar gyfer cyflwyno datganiadau llawn yn rhy fyr, yn enwedig ar sail lefel y manylion sydd ei hangen i baratoi un, rydym yn cydnabod bod hyn yn wir am rai apeliadau gorfodi ac apeliadau cysylltiedig. Bwriadwn gynnwys darpariaeth ar gyfer cyflwyno datganiad achos llawn yn ddiweddarach (gweler Ymateb Llywodraeth Cymru i C1).</p>

Y camau nesaf

- 3.21 Bwriadwn gadw'r diffiniad o 'datganiad achos llawn' ar gyfer apeliadau cynllunio ac apeliadau cysylltiedig a cheisiadau a alwyd i mewn. Fodd bynnag, o ran apeliadau gorfodi ac apeliadau cysylltiedig, byddwn yn addasu'r diffiniad er mwyn bod yn fanwl gywir a'i gwneud yn ofynnol i'r apelydd a'r ACLI ymdrin â'r seiliau dros apelio.

C3	A ydych yn cytuno â'n cynigion i alluogi Gweinidogion Cymru (neu'r Arolygiaeth Gynllunio) i bennu'r weithdrefn ar gyfer apeliadau yn erbyn hysbysiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynnal a chadw tir yn ddiogel, a phenderfynu ar yr apeliadau hynny? Os nad ydych, pam?
Er cysondeb â mathau eraill o apêl, cynigir y dylai'r weithdrefn ar gyfer apeliadau yn erbyn hysbysiadau sy'n gofyn am i dir gael ei gynnal yn briodol gael ei chysoni â gweithdrefnau sy'n ymwneud ag apeliadau gorfodi ac apeliadau cysylltiedig, ac y bydd yr Arolygydd yn penderfynu a ddylai apeliadau o'r fath fynd rhagddynt drwy sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiadau, ymchwiliadau neu gyfuniad o ddau neu fwy o'r dulliau hynny. Gofynnodd yr ymgynghoriad a gytunodd ymatebwyr â'r diffiniad hwn.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw /Ydyn	Ydw/Ydyn (Yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydw/ydyn	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	0	0	1	2
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	8	2	0	1	11
C	Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	0	0	3	4
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Diddordeb	2	0	0	1	3
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	0	0
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	0	0	1	2	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		12	2	1	8	23

	Ydw/Ydyn, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw/ydyn
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	14	1

Cyfanswm y ganran	93%	7%
--------------------------	------------	-----------

Adolygiad ystadegol

3.22 Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr â'r cynnig i alluogi Gweinidogion Cymru i benderfynu ar y weithdrefn ar gyfer apelio yn erbyn hysbysiadau a oedd yn gofyn am gynnal tir yn briodol. Ymhlith y grwpiau hynny o ymatebwyr a gytunodd, ACLlau a Chyrff Proffesiynol / Grwpiau â Diddordeb a gytunodd fwyaf â'r cynigion fel cyfran. Dim ond un ymatebydd a restrwyd o dan Eraill a wrthwynebodd y cynigion.

Themâu allweddol

3.23 Mae'r themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 2 fel a ganlyn:

- Cafwyd cytundeb cyffredinol â'r cynigion i alluogi Gweinidogion Cymru (neu'r Arolygiaeth Gynllunio) i bennu'r weithdrefn ar gyfer apelïadau yn erbyn hysbysiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynnal a chadw tir yn ddiogel, a phenderfynu ar yr apelïadau hynny;
- Bydd y cynnig hwn yn sicrhau cysondeb a dealltwriaeth o ran pob apêl ac i bob parti.

Trosolwg

3.24 Ar y cyfan ni wnaeth ymatebwyr a gytunodd â'r cynnig sylwadau yn awgrymu pam y cytunwyd ag ef. Fodd bynnag, cydnabu dau ymatebydd y byddai'r cynnig yn arwain at leihau unrhyw gost ddiangen, ac y byddai'n sicrhau cysondeb a dealltwriaeth o ran pob apêl i bob parti.

C3	Ymateb Llywodraeth Cymru
<p>Mae adran 48 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn trosglwyddo pwerau sy'n ymwneud ag apelïadau yn erbyn hysbysiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i dir gael ei gynnal a'i gadw yn briodol o Lysoedd yr Ynadon i Weinidogion Cymru. Yr Arolygiaeth Gynllunio (yn gweithio ar ran Gweinidogion Cymru) fydd yn penderfynu ar y weithdrefn ar gyfer yr apelïadau hyn ac yn gwneud penderfyniadau yn eu cylch.</p>	

Y camau nesaf

3.25 Bwriadwn gysoni apeliadau â hysbysiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i dir gael ei gynnal a'i gadw'n briodol â mathau tebyg eraill o apeliadau er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder y broses apelio. Yn unol â hynny, byddwn yn sicrhau bod yr Arolygiaeth Gynllunio yn gallu penderfynu ar weithdrefn ar gyfer apeliadau o'r fath.

C4	A ydych yn cytuno â'n cynigion mewn perthynas â newidiadau i'r weithdrefn gychwynnol a'r weithdrefn a ddilynir gan bartion wrth gyflwyno dogfennau craidd? Os nad ydych, pam?
Cynigir y dylid lleihau'r amserlen gychwynnol ar gyfer apeliadau a cheisiadau a alwyd i mewn er mwyn sicrhau bod yr holl ddatganiadau achos ac ymatebion yn dod i law erbyn wythnos 6. Gofynnodd yr ymgynghoriad a gytunodd ymatebwyr â'r cynnig hwn.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw /Ydyn	Ydw/Ydyn (Yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydw/ ydyn	Ddim yn Gwyb od	Cyfan swm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	0	0	1	1	2
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	3	3	4	1	11
C	Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	1	0	1	4
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Diddordeb	1	0	2	0	3
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	0	0
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	1	0	2	0	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		7	4	9	3	23

	Ydw/Ydyn, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw/ydyn
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	11	9
Cyfanswm y ganran	55%	45%

Adolygiad ystadegol

3.26 Er i'r mwyafrif o'r ymatebwyr gytuno â'r cynnig, cymysg fu'r ymateb i'r cynnig gan bob grŵp o ymatebwyr. Cytunodd pob ymatebydd o blith y categori Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall â'r cynigion, ond anghytunodd pob ymatebydd o blith y categori Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio. Bu gwahaniaeth barn amlwg rhwng ymatebwyr o blith y categori ACLlau, Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Diddordeb ac Eraill.

Themâu allweddol

3.27 Mae'r themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 4 fel a ganlyn:

- Cafwyd cytundeb cyffredinol â'r terfynau amser a gynigiwyd ar gyfer cyflwyno dogfennau craidd a newidiadau i'r weithdrefn gychwynnol, ond roedd y gwahaniaeth rhwng y rhai a gytunodd a'r rhai a anghytunodd yn fach iawn;
- Mynegwyd pryderon ynglŷn â therfynau amser anhyblyg a allai roi baich afresymol ar adnoddau staff ACLlau, sydd eisoes o dan bwysau;
- Yr angen i ystyried terfynau amser ar gyfer yr achosion hynny y tybir eu bod yn gymhleth iawn.

Trosolwg

3.28 Ar y cyfan ni wnaeth ymatebwyr a gytunodd â'r cynnig sylwadau yn awgrymu pam y cytunwyd ag ef. Fodd bynnag, cydnabu un ymatebydd fod y gofyniad ar apelwyr i gyflwyno eu datganiad achos llawn ar y cychwyn yn cyfiawnhau'r cyfnod byrrach ar gyfer cyflwyno dogfennau craidd eraill a sylwadau ar gyfer partiön eraill sy'n rhan o'r apêl neu'r broses galw i mewn.

3.29 Cododd dau ymatebydd, er eu bod yn cytuno â'r cynnig, ychydig o bryderon nad oes hyblygrwydd i'r Arolygiaeth Gynllunio newid y terfyn amser ar gyfer cyflwyniadau gan bartiön â diddordeb er mwyn adlewyrchu cymhlethdod achos.

3.30 Yn yr un modd, awgrymodd ymatebydd arall, er ei fod yn cytuno â'r cynigion, y gallai terfynau amser byrrach roi mwy o bwysau ar yr Arolygiaeth Gynllunio gan y gall hyn beri iddynt dreulio amser ychwanegol yn ceisio dogfennau gan bartiön.

3.31 Anghytunodd y mwyafrif o'r ACLlau â'r cynigion ac yn benodol gwrthwynebwyd cywasgu'r amserlen gychwynnol ar gyfer apeliadau a cheisiadau a alwyd i mewn. Y prif resymau dros hyn oedd:

- Mae'r terfyn amser a gynigiwyd yn rhy fyr ac mae'n rhoi baich afresymol ar ACLlau, sy'n wynebu problemau o ran adnoddau staffio eisoes;
- Mae pum diwrnod gwaith ar gyfer cyflwyno holiadur wedi'i lenwi a hysbysu partïon â diddordeb am apêl ond yn gweithio o ran apeliadau deiliaid tai, gan eu bod yn symlach ac yn cynnwys llai o ddogfennau ar y cyfan. Ar gyfer apeliadau mwy cymhleth eraill, ystyrir ei bod yn rhy fyr;
- Byddai gofyn am wybodaeth yn gynharach yn debygol o arwain at apeliadau o safon is;
- Ni fyddai cadw'r terfynau amser presennol yn cael effaith sylweddol ar derfyn amser cyffredinol apêl.

3.32 Codwyd pryder arall hefyd mewn perthynas â phartïon â diddordeb, oherwydd nodwyd y byddai partïon â diddordeb yn cael 4 wythnos i gyflwyno eu sylwadau o dan y cynigion. Fodd bynnag, pe bai'n ofynnol i ACLlau hysbysu partïon â diddordeb am apêl o fewn 5 diwrnod gwaith, gallai hyn olygu mai dim ond ychydig dros 3 wythnos fyddai ganddynt i gyflwyno sylwadau pe bai ACLlau yn bodloni eu gofynion hysbysu ar y cyfle hwyrach posibl. Gallai hyn roi mwy o bwysau ar bartïon â diddordeb, yn enwedig mewn achosion lle mae'n rhaid iddynt ddibynnu ar gyngor arbenigol neu gyfreithiol i wneud eu sylwadau.

C4 Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn cydnabod y gall cymhlethdod apeliadau amrywio'n sylweddol ar sail achos unigol, ond rydym o'r farn y bydd ein cynnig i'w gwneud yn ofynnol i'r apelydd gyflwyno datganiad achos llawn ar y cychwyn o gymorth mawr i leihau'r amser sydd ei angen ar ACLlau a phartïon â diddordeb i gyflwyno eu sylwadau. Bwriad y cynigion yw y bydd eu datganiad achos llawn yn ymateb uniongyrchol i achos yr apelydd, yn hytrach na rhoi dadleuon sydd eisoes wedi'u cynnwys yn adroddiad pwyllgor neu adroddiad dirprwyedig yr ACLI. Felly, byddai datganiad achos llawn yn ddogfen â mwy o ffocws ac yn un llai beichus i'w pharatoi.

Er bod rhai sylwadau'n adlewyrchu'r farn mai dim ond 3 wythnos fydd gan bartïon â diddordeb i gyflwyno eu sylwadau pe bai'r ACLI yn anfon hysbysiad i bartïon â diddordeb ar ddiwedd y 5 diwrnod gwaith, rydym o'r farn bod modd cyfiawnhau terfyn amser byrrach. Ynghyd â'r syniad y byddai i ddatganiad achos llawn fwy o ffocws nag sydd iddo ar hyn o bryd, bydd datganiad achos llawn yr apelydd wedi ei gyhoeddi ar-lein ymhell cyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno sylwadau.

O ran y pryderon a godwyd mewn perthynas â'r cyfnod o 5 diwrnod gwaith

y mae'n rhaid i ACLlau ddarparu holiadur wedi'i lenwi ar gyfer apeliadau a hysbysu unrhyw bartïon â diddordeb am apêl neu gais a alwyd i mewn oddi mewn iddo, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod ACLlau yn cwblhau ac yn cyflwyno holiaduron ac yn hysbysu partïon â diddordeb o fewn y cyfnod presennol o 5 diwrnod gwaith ar gyfer apeliadau i ddeiliaid tai ac apeliadau masnachol fel mater o reol. Er bod adnoddau staff mewn ACLlau yn parhau'n broblem o ran cydymffurfio â therfynau amser statudol, mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn gweithio gydag ACLlau i ddatblygu dulliau gwaith electronig gwell a fydd yn helpu i gyflwyno holiadur wedi'i gwblhau yn gyflymach. Bydd darpariaeth wedi'i chynnwys yn y rheoliadau gweithdrefn diwygiedig er mwyn caniatáu hyn. Yn unol â hynny, rydym o'r farn bod 5 diwrnod gwaith i gwblhau ac anfon holiadur, yn ogystal â hysbysu partïon â diddordeb am apêl neu gais a alwyd i mewn yn rhesymol.

Awgrymodd dau ymatebydd y dylai fod gan yr Arolygiaeth Gynllunio y pŵer i newid terfynau amser i bartïon â diddordeb ar gyfer apeliadau mwy cymhleth. Er mwyn sicrhau rhywfaint o hyblygrwydd, bwriadwn roi'r pŵer i Arolygwyr estyn unrhyw derfynau amser a nodir yn y rheoliadau.

Rydym yn hyderus y bydd cywasgu'r amserlen gychwynnol ar gyfer apeliadau yn fuddiol i bawb dan sylw, gan leihau'r amser a'r costau dan sylw yn y broses apelio ac yn y pen draw, arwain at benderfyniadau o ansawdd gwell.

Y camau nesaf

- 3.33 Bwriedir bwrw ymlaen â'r cynigion i gywasgu'r amserlen gychwynnol ar gyfer apeliadau a cheisiadau a alwyd i mewn, fel y'i nodwyd yn y papur ymgynghori. Er mwyn helpu ACLlau i gydymffurfio â therfynau amser byrrach sy'n ymwneud â holiadur yr apêl, cynigir y dylid cyflwyno darpariaethau cryfach ynglŷn â gweithio'n electronig, gan ganiatáu i ACLlau gyflwyno cyfres o ddolenni i wybodaeth ar eu gwefan yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol iddynt roi copi o'r wybodaeth i'r Arolygiaeth Gynllunio.
- 3.34 Er mwyn darparu ar gyfer achosion cymhleth, caiff hyblygrwydd ei ychwanegu at y rheoliadau gweithdrefn diwygiedig sy'n caniatáu i'r Arolygydd estyn unrhyw derfyn amser a nodir yn ysgrifenedig (gan gynnwys terfynau amser ar gyfer holiaduron a sylwadau).

C5	A ydych yn cytuno â'n cynigion ynghylch Datganiadau o Dir Cyffredin? Os nad ydych, pam?
Mae'r papur ymgynghori yn nodi cynigion sy'n dileu'r gofyniad statudol i gyflwyno Datganiad Tir Cyffredin ar gyfer gwrandawiaidau ac ymchwiliadau. Yn lle hynny, bydd Gweinidogion Cymru yn annog partïon i gyflwyno Datganiad Tir Cyffredin ar gyfer pob gweithdrefn ac yn cyhoeddi canllawiau ar y ffordd y dylid eu paratoi a'u hamseriad. Gofynnodd yr ymgynghoriad a gytunodd ymatebwyr â'r cynnig hwn.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw /Ydyn	Ydw/Ydyn (Yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydw/ydyn	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	2	0	0	0	2
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	7	2	1	1	11
C	Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	1	0	2	4
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Diddordeb	1	2	0	0	3
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	0	0
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	1	2	0	0	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		12	7	1	3	23

	Ydw/Ydyn, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw/ydyn
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	19	1
Cyfanswm y ganran	95%	5%

Adolygiad ystadegol

- 3.35 Cytunodd mwyafrif clir o'r ymatebwyr â'r cynigion sy'n ymwneud â Datganiad Tir Cyffredin. Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr heb unrhyw sylwadau nac amodau eraill hefyd. Anghytunodd un ACLI â'r cynigion.

Themâu allweddol

- 3.36 Mae'r themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 5 fel a ganlyn:
- Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion, ond nid oedd rhai ymatebwyr yn gweld unrhyw ddiben mewn Datganiad Tir Cyffredin yn ystod y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig;
 - Gwnaed nifer o awgrymiadau ynglŷn â'r hyn y dylid ei gynnwys mewn canllawiau;
 - Awgrymwyd cynigion amgen o ran cadw Datganiad Tir Cyffredin fel gofyniad statudol, ond dim ond lle y nodwyd hyn gan yr apelydd neu'r ACLI yn nogfennaeth yr apêl.

Trosolwg

- 3.37 Bu cefnogaeth gyffredinol i'n cynigion ynglŷn â Datganiad Tir Cyffredin. O'r rhai a fu'n gefnogol, nododd un ACLI y bydd dileu'r Datganiad Tir Cyffredin fel gofyniad statudol yn helpu i gyflymu'r broses apelio. Nododd un ACLI hefyd mai defnydd cyfyngedig oedd i Ddatganiad Tir Cyffredin ac, yn aml, caiff ei ddefnyddio i ailddatgan gwahaniaethau sydd eisoes wedi'u deall yn yr hysbysiad o benderfyniad. Nododd ACLI arall ei fod yn cefnogi'r defnydd o Ddatganiad Tir Cyffredin ym mhob achos.
- 3.38 Croesawodd un ymatebydd o blith y categori Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall y bwriad i gyhoeddi canllawiau ar Ddatganiadau Tir Cyffredin. Fel rhan o'r canllawiau, cyflwynwyd amrywiol awgrymiadau ynglŷn â chynnwys Datganiadau Tir Cyffredin, gan gynnwys amseriad, templed safonol ac ymdrin â rôl ymgngoreion a thrydydd partïon yn y broses.
- 3.39 Nododd rhai ymatebwyr, er eu bod yn cytuno â'r cynigion, y dylid annog y drefn o gyflwyno Datganiad Tir Cyffredin ar unrhyw gam o apêl. Nododd ymatebydd o Asiantaethau'r Llywodraeth / Sector Cyhoeddus, ar y llaw arall, mai Arolygwyr a ddylai geisio datganiadau o'r fath ar ddechrau achos. Dywedir mai dim ond os bernir ei bod yn ddichonadwy y dylai Datganiad Tir Cyffredin gael ei baratoi.

- 3.40 Nododd un ACLI hefyd fod angen ei gwneud yn glir pwy sy'n arwain o ran y Datganiad Tir Cyffredin. Nododd un Corff Proffesiynol / Grŵp â Diddordeb y dylai apelwyr ac ACLlau nodi yn eu dogfennaeth apelio p'un a oes bwriad i gyflwyno Datganiad Tir Cyffredin.
- 3.41 Anghytunodd un ACLI â'r cynnig gan nodi nad oes angen Datganiad Tir Cyffredin yn achos gweithdrefnau sylwadau ysgrifenedig a'i fod yn debygol o achosi oedi cyn gwneud penderfyniad. Nododd ACLI arall fod y dull gweithredu'n mynd yn groes i'r dyhead cyffredinol i symleiddio'r broses apelio a'i fod yn faich ychwanegol ar ACLlau.

C5	Ymateb Llywodraeth Cymru
<p>Gan fod yr ymateb wedi nodi cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig, byddwn yn parhau â'n bwriad i ddileu'r gofyniad statudol ar gyfer Datganiad Tir Cyffredin o dan y rheolau ynglŷn ag apeliadau a cheisiadau a alwyd i mewn. Er i sylwadau nodi nad oedd angen Datganiad Tir Cyffredin ar gyfer apeliadau sy'n mynd yn eu blaen drwy sylwadau ysgrifenedig, mae'n rhaid inni bwysleisio na fydd yn ofyniad statudol.</p> <p>Codwyd nifer o awgrymiadau ynglŷn â'r hyn y dylid ei gynnwys yn y canllawiau yn ogystal â diwygiadau i'r ffurflenni apêl. Byddwn yn adolygu'r materion hyn ar y cyd â'r Arolygiaeth Gynllunio er mwyn sicrhau bod canllawiau a ffurflenni priodol ar gael ar gyfer y broses apelio yn ei chyfanrwydd.</p> <p>Fel egwyddor gyffredinol, rydym yn annog pob parti i geisio tir cyffredin a meysydd lle ceir cytundeb yn ystod apêl neu gais a alwyd i mewn, ac nid dim ond i ACLlau ac apelwyr / ymgeiswyr yn unig y mae hyn yn berthnasol.</p>	

Y camau nesaf

- 3.42 Y bwriad yw gweithio gyda'r Arolygiaeth Gynllunio i baratoi canllawiau mewn perthynas â Datganiadau Tir Cyffredin. Bydd y canllawiau yn ceisio sicrhau bod Datganiad Tir Cyffredin yn cael ei gyflwyno'n gynnar lle mae'r partiön wedi cytuno y caiff un ei gyflwyno. Bwriedir hefyd na ddylid cynnwys unrhyw ofynion statudol ar gyfer Datganiad Tir Cyffredin yn y rheoliadau newydd ar gyfer y weithdrefn apelio.

C6	A ydych yn cytuno â'n cynigion ynghylch yr archwiliad dull cymysg ar gyfer apeliadau a cheisiadau a alwyd i mewn? Os nad ydych, pam?
<p>Yn hytrach na bod apeliadau yn cael eu hystyried yn gyfan gwbl drwy sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiaidau neu ymchwiliadau, cynigir y dylid galluogi Arolygwyr i benderfynu ar apêl drwy weithrediadau cyfunol, lle y bo'n briodol. Er enghraifft, caiff apêl ei hystyried yn rhannol drwy sylwadau ysgrifenedig ac yn rhannol drwy wrandawriad neu ymchwiliad, er mwyn ymdrin â phynciau penodol. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn a yw'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion hyn.</p>	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw /Ydyn	Ydw/Ydyn (Yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydw/ydyn	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	2	0	0	0	2
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	6	4	0	1	11
C	Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	1	0	2	4
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Diddordeb	2	1	0	0	3
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	0	0
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	0	2	0	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		11	8	0	4	23

	Ydw/Ydyn, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw/ydyn
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	19	0
Cyfanswm y ganran	100%	0%

Adolygiad ystadegol

- 3.43 Cytunodd pob ymatebydd â'r cynigion y dylai apeliadau gael eu hystyried drwy gyfuniad o ddulliau. O'r ymatebwyr hynny, cytunodd nifer o ACLlau ac ymatebwyr Eraill yn amodol ar y sylwadau a wnaed.

Themâu allweddol

- 3.44 Mae'r themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 6 fel a ganlyn:
- Cafwyd ymateb cefnogol ar y cyfan i'r cynigion yn yr ystyr eu bod yn hyrwyddo hyblygrwydd ac yn lleihau gwariant.
 - Codwyd rhai ymholiadau ynglŷn â chynnwys partïon yn y broses o benderfynu ar y weithdrefn;
 - Awgrymwyd terfyn amser ar gyfer penderfynu ar y weithdrefn.

Trosolwg

- 3.45 Cafwyd ymateb cadarnhaol ar y cyfan i'n cynnig ar gyfer ystyried apeliadau a cheisiadau a alwyd i mewn drwy gyfuniad o ddulliau.
- 3.46 O'r rhai a gytunodd, nododd dau ACLI y byddai'r cynnig yn galluogi'r Arolygiaeth Gynllunio i ganolbwyntio ar y materion yr oedd anghydfod yn eu cylch, lleihau gwariant a'r amser a gymerir i benderfyniadau ar apeliadau. Cytunodd un ymatebydd Busnes / Ymgynghorydd Cynllunio y byddai'r cynnig yn galluogi mwy o hyblygrwydd a nododd fod y dull gweithredu wedi gweithio'n dda o dan Ddeddf Cynllunio 2008.
- 3.47 Cytunodd rhai ymatebwyr yn amodol ar sylwadau. Nododd un ACLI mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid defnyddio cyfuniad o ddulliau. Nododd ACLI arall y dylai'r weithdrefn a ddewisid fod yn gyson â chymhlethdod yr achos ac y dylai fod yn dryloyw.
- 3.48 Cafwyd rhai sylwadau negyddol. Nododd un ACLI y gall y cynnig achosi mwy o amryfusedd ymhlith partïon â diddordeb ac y byddai'n debygol o wneud y broses apelio'n hirach. Mae un ACLI o'r farn, er ei fod yn cefnogi'r egwyddor, fod digon o le yn y gweithdrefnau presennol ar gyfer gwrandawriadau ac ymchwiliadau i wahaniaethu rhwng gweithrediadau llafar ac ysgrifenedig. At

hynny, nododd yr ACLI y gall y broses ddiwygiedig gynyddu costau gweinyddol i bawb a bod ystyriaeth drwy gyfuniad o ddulliau yn fwy addas ar gyfer datblygiad o bwys cenedlaethol, yn hytrach nag apeliadau neu geisiadau a alwyd i mewn.

- 3.49 Gwnaed rhai awgrymiadau ynglŷn â sut i newid y cynnig. Gofynnodd un ymatebydd o blith y categori Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall am i unrhyw newidiadau mewn gweithrediadau neu derfynau amser gael eu hesbonio'n glir i bartion â diddordeb. Gofynnodd un ymatebydd o blith y categori Eraill ac un ACLI am i'r apelydd a/neu ACLI gael ei gynnwys wrth benderfynu ar y weithdrefn. Nododd un ymatebydd o blith y categori Eraill ac un ymatebydd o blith y categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Diddordeb y dylai fod terfyn amser ar newid y dull o ystyried yr apêl er mwyn rhoi cyfle i bartion ymateb. Gofynnodd un ACLI am i senarios enghreifftiol gael eu cyhoeddi lle y gellid mabwysiadu ystyriaeth drwy gyfuniad o ddulliau.
- 3.50 Gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â phwyntiau eraill fel rhan o'r ymgynghoriad. Nododd un ACLI nad yw Atodiad B i'r papur ymgynghori yn gyson â'r cynigion a nodwyd yn y papur, yn enwedig o ran costau.

C6 Ymateb Llywodraeth Cymru

Nodwyd yr egwyddor o ganiatáu i Weinidogion Cymru benderfynu ar y weithdrefn ar gyfer apeliadau a cheisiadau a alwyd i mewn yn y Papur Ymgynghori ar Gynllunio Cadarnhaol. Mae A.319B o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (yn ogystal â'r ddeddfwriaeth ofynnol sy'n ymwneud ag Adeiladau Rhestredig a Sylweddau Peryglus) wedi rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru benderfynu ar y weithdrefn ers 2014.

Mae'r cynigion a nodwyd yn y papur ymgynghori yn ymwneud â'r gallu i benderfynu y dylid ystyried apêl neu gais a alwyd i mewn drwy weithrediadau cyfun. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r cynigion hyn ar y sail y bwriedir iddynt leihau amser a gwariant diangen mewn perthynas ag apeliadau a cheisiadau a alwyd i mewn.

Gwnaed rhai awgrymiadau, yn ychwanegol at y cynigion, sy'n werthfawr. Mae'r rheini yn cynnwys cadw'r gallu i'r apelydd a'r ACLI nodi'r weithdrefn a ffefrir ganddynt, yr angen am dryloywder drwy gyhoeddi meini prawf priodol er mwyn helpu i benderfynu ar y weithdrefn, a chyflwyno terfyn amser ar gyfer penderfynu ar y weithdrefn. Bwriadwn fabwysiadu'r awgrymiadau hyn.

Er mwyn mynd i'r afael yn benodol â'r cyfnod y mae'n rhaid penderfynu ar y weithdrefn o fewn iddo, rydym wedi penderfynu mai 6 wythnos o'r dyddiad dechrau fyddai fwyaf priodol i benderfynu a oes angen rhagor o

weithrediadau, yn ogystal â sylwadau ysgrifenedig.

Pan benderfynir ar y weithdrefn, byddai'n rhesymegol i Weinidogion Cymru nodi pa faterion y dylid eu trafod mewn gwrandawriad neu ymchwiliad. Byddai hyn yn rhoi digon o amser i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y broses i baratoi ar gyfer gweithrediadau llafar. Fodd bynnag, ar lefel ymarferol, byddai'n anodd iawn i Weinidogion Cymru benderfynu ar y materion hynny o fewn 7 diwrnod gwaith (fel y'i rhagnodir ar hyn o bryd mewn deddfwriaeth gyfredol) i'r hysbysiad o apêl gan na fyddent wedi gweld datganiadau achos llawn yr ACLI na phartïon â diddordeb. Dim ond y penderfyniad a wnaed gan yr ACLI a datganiad achos llawn yr apelydd y byddent wedi'u gweld.

Byddai cadw'r cyfnod o 7 diwrnod yn anghynhyrchiol a gallai o bosibl wneud newidiadau yn y weithdrefn yn ystod apêl neu gais a alwyd i mewn yn fwy tebygol o ganlyniad i hynny, gan y gall materion sy'n gofyn am wrandawriad neu ymchwiliad gael eu codi gan ACPau a phartïon a diddordeb yn eu datganiadau achos llawn. Byddai hyn yn y pen draw yn arwain at system apelio fwy dryslyd i'r cyhoedd a'r rhai sy'n cymryd rhan.

Y cynharaf y byddai Gweinidogion Cymru yn gallu penderfynu ar y weithdrefn gyda sicrwydd fyddai ar ôl cael yr holl ddatganiadau achos llawn. Yng ngoleuni hyn, cynigir bod yn rhaid penderfynu ar y weithdrefn o fewn 6 wythnos i'r dyddiad dechrau (2 wythnos ar ôl y terfyn amser ar gyfer derbyn datganiadau achos llawn yr apelydd a phartïon â diddordeb). Mae hyn yn debyg i'r broses ar gyfer penderfynu ar y weithdrefn a fabwysiadwyd yn Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol 2016, sydd hefyd yn digwydd 2 wythnos ar ôl i'r datganiadau achos llawn ddod i law.

Yn ymarferol, gall y broses hon o benderfynu ar y weithdrefn ddigwydd dipyn yn gynt lle mae'n amlwg i Weinidogion Cymru y byddai'r apêl yn cael ei phenderfynu'n gyfan gwbl drwy sylwadau ysgrifenedig, gwrandawriad neu ymchwiliad.

O ran costau, nododd un sylw a gyflwynwyd nad oedd y meini prawf a nodwyd ar gyfer penderfynu ar y weithdrefn a geir yn y papur ymgynghori yn gyson â'r cynigion. Roedd y papur ymgynghori yn glir mai'r meini prawf yw'r meini prawf presennol ar gyfer penderfynu ar y weithdrefn, sydd i'w hadolygu. Ar hyn o bryd cyfeirir yn benodol at ganiatáu gwrandawriad neu ymchwiliad lle mae'r apelydd yn bwriadu gwneud cais am gostau. Bwriedir egluro na fydd apelwyr yn gallu gofyn am weithrediadau llafar ar y sail hon mwyach.

Y camau nesaf

- 3.51 Bwriedir bwrw ymlaen â'r cynigion fel y'u nodwyd yn y papur ymgynghori a chyhoeddi rheoliadau wedi'u cydgrynhoi sy'n galluogi ystyried apeliadau drwy gyfuniad o ddulliau. O fewn y rheoliadau hynny, bwriedir pennu terfyn amser, sef o fewn 6 wythnos i'r dyddiad dechrau lle mae'n rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu a oes angen gweithrediadau eraill, yn ychwanegol at sylwadau ysgrifenedig.
- 3.52 Yn unol â'r cynigion i newid canllawiau ynglŷn â chostau, bwriedir diwygio'r meini prawf cyhoeddedig presennol ar gyfer penderfynu ar y weithdrefn ar gyfer apeliadau a cheisiadau a alwyd i mewn er mwyn sicrhau nad yw hawliad am gostau yn rheswm dros ofyn am weithrediadau llafar. Gall apelwyr wneud cais am gostau drwy sylwadau ysgrifenedig.
- 3.53 Ar hyn o bryd, mae'r ffurflen apêl a'r holiadur yn ei gwneud yn ofynnol i'r ACLI a'r apelydd nodi'r weithdrefn a ffefrir ganddynt. Ni fwriedir newid y gallu hwn ac erys safbwyntiau'r apelydd a'r ACLI yn bwysig o ran penderfynu ar y weithdrefn ar gyfer apeliadau.

C7	A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno terfyn geiriau o 3,000 fesul pwnc ar gyfer sylwadau pellach y mae'r Arolygydd yn gofyn amdanynt wrth ystyried apêl neu gais a alwyd i mewn? Os nad ydych, pam?
-----------	---

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cynnig sy'n caniatáu i Arolygwyr ofyn am sylwadau ychwanegol o hyd at uchafswm geiriau penodol yn ystod apêl neu gais a alwyd i mewn er mwyn ceisio eglurder ynglŷn â materion penodol a lleihau'r angen i gynnal gwrandawriad neu ymchwiliad ynglŷn â'r pwnc penodol hwnnw. Gofynnodd yr ymgynghoriad a fyddai uchafswm geiriau o 3,000 ar sylwadau ar fath yn briodol.

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw /Ydyn	Ydw/Ydyn (Yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydw/ydyn	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	0	1	0	1	2
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	4	6	0	1	11
C	Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	1	0	2	4
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Diddordeb	1	2	0	0	3
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	0	0
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	1	1	0	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		7	11	0	5	23

	Ydw/Ydyn, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw/ydyn
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	18	0
Cyfanswm y ganran	100%	0%

Adolygiad ystadegol

- 3.54 Cytunodd pob ymatebydd â'r cynnig ar gyfer sylwadau pellach hyd at uchafswm geiriau penodol i'w gwneud yn ystod apêl neu gais a alwyd i mewn. O'r rhain, cytunodd y mwyafrif o ACLlau a Chyrff Proffesiynol / Grwpiau â Diddordeb yn amodol ar sylwadau pellach.

Themâu allweddol

- 3.55 Mae'r themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 7 fel a ganlyn:
- Cafwyd cytundeb cyffredinol i egwyddor sylwadau hyd at uchafswm geiriau penodol;
 - Mynegwyd pryder y gallai uchafswm geiriau rwystro partïon rhag esbonio materion technegol neu gymhleth yn briodol;
 - Nifer o alwadau am hyblygrwydd ynglŷn â'r uchafswm geiriau.

Trosolwg

- 3.56 Cafwyd cryn cytundeb ynglŷn â'r cynnig i gyflwyno sylwadau o hyd at uchafswm geiriau penodol. Ymhlith ACLlau y cafwyd y rhan fwyaf o'r gefnogaeth hon.
- 3.57 O'r rhai a gefnogodd y cynigion, nododd un Busnes / Ymgynghorydd Cynllunio y gall y cynnig osgoi'r gofyniad am wrandawriad neu ymchwiliad ynglŷn â materion penodol ac y byddai'n annog gwneud defnydd effeithlon a chymesur o amser ac adnoddau. Nododd un ACLI y byddai uchafswm geiriau yn helpu i sicrhau sylwadau ac iddynt fwy o ffocws.
- 3.58 Cafwyd cytundeb hefyd ynglŷn â'r cynnig, yn ddarostyngedig i rai amodau. Nododd un ACLI na ddylai'r gofyniad ar gyfer sylwadau ychwanegol effeithio ar ddyddiad penderfynu'r apêl. Roedd ACLI hefyd yn cefnogi'r cynnig ar yr amod bod cyfle digonol a theg i ymdrin â phob mater. Roedd un ACLI yn amau a oedd y cynnig yn symleiddio'r broses. Nododd un arall mai fel canllaw yn hytrach na gofyniad y dylid gosod uchafswm geiriau.

- 3.59 Fel amrywiad ar y cynigion, awgrymodd un ymatebydd Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall y dylid rhoi crynodebau lle mae apelydd yn dangos bod angen mynd dros yr uchafswm geiriau o dipyn. Cytunodd un ymatebydd Busnes / Ymgynghorydd Cynllunio, dau ymatebydd Corff Proffesiynol / Grŵp â Diddordeb a dau ACLI fod angen hyblygrwydd lle mae materion cymhleth neu dechnegol iawn yn codi.
- 3.60 Gofynnwyd am eglurhad gan un ymatebydd Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall ynghylch a fyddai'r terfyn geiriau o 3,000 a gynigiwyd yn cynnwys atodiadau technegol ai peidio.

C7	Ymateb Llywodraeth Cymru
	<p>Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i Arolygydd Cynllunio ofyn am sylwadau ychwanegol ac iddynt derfyn geiriau ar fater penodol.</p> <p>Yn y sylwadau, cafwyd sawl cais am hyblygrwydd ac am i sylwadau estynedig gael eu caniatáu yn achos materion cymhleth a thechnegol. Nid ydym yn anghytuno â'r cynnig hwn. Fodd bynnag, er mwyn helpu i sicrhau bod i sylwadau ychwanegol a gyflwynir ffocws, rydym o'r farn mai'r Arolygydd a ddylai benderfynu ar uchafswm geiriau yn ôl ei (d)disgresiwn. Pan fydd yr Arolygydd yn gofyn am sylwadau sy'n fwy na 3,000 o eiriau fesul pwnc, byddwn yn gofyn am i grynoded gael ei gyflwyno gyda sylwadau o'r fath, yn unol â chais rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad.</p> <p>Codwyd mater atodiadau technegol yn yr ymgynghoriad. Bwriad sylwadau ag uchafswm geiriau yw sicrhau bod ffocws i'r ymatebion a gyflwynir. Rydym o'r farn y dylai atodiadau technegol gyfrannu tuag at nifer y geiriau ar gyfer sylwadau ychwanegol.</p>

Y camau nesaf

- 3.61 Bwriedir gwneud darpariaeth yn y rheoliadau newydd ar gyfer apeliadau a cheisiadau a alwyd i mewn a fydd yn galluogi Arolygwyr Cynllunio i ofyn am ragor o sylwadau gan y rhai sy'n rhan o'r broses apelio a galw i mewn a'i gwneud yn ofynnol i'r sylwadau hynny fod â therfyn o 3,000 o eiriau fesul pwnc. Bydd gan Arolygwyr Cynllunio ddisgresiwn i ofyn am sylwadau hirach ynghyd â chrynodeb. Bwriedir paratoi canllawiau a fydd yn nodi ffurf a chwmpas sylwadau o'r fath.

C8	A ydych yn cytuno â'r amgylchiadau lle gellir amrywio cais yn achos apêl? Os nad ydych, pam?
Cynigiodd yr ymgynghoriad na ddylid bod modd diwygio cais ar ôl i apêl gael ei chyflwyno. Dim ond pan fydd o ganlyniad i wall darlunio neu ddrafftio, ac nad yw'n effeithio ar sylwedd y cais, y caiff cais ei ddiwygio. Gofynnodd yr ymgynghoriad am sylwadau ar y dull gweithredu hwn.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw /Ydyn	Ydw/Ydyn (Yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydw/ydyn	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	0	1	0	2
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	5	4	1	1	11
C	Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	2	0	1	4
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Diddordeb	1	1	1	0	3
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	0	0
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	0	2	0	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		8	9	3	3	23

	Ydw/Ydyn, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw/ydyn
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	17	3
Cyfanswm y ganran	85%	15%

Adolygiad ystadegol

3.62 Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr â'r amgylchiadau lle y gellir newid cais yn ystod apêl. O'r grwpiau o ymatebwyr hynny a gytunodd, ACLlau a'r categori Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall a gytunodd fwyaf â'r cynigion fel cyfran. Cymysg fu'r ymateb ymhlith ymatebwyr o blith y categorïau Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio a Chyrff Proffesiynol / Grwpiau â Diddordeb.

Themâu allweddol

3.63 Mae'r themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 8 fel a ganlyn:

- Cafwyd gwahaniaeth barn nodedig rhwng ACLlau ac ymatebwyr Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio;
- Cafwyd cytundeb cyffredinol â'r cynnig, ond mae angen rhagor o ganllawiau ar gwmpas y diwygiadau;
- Nododd sylwadau gan lawer o ymatebwyr fod y cynnig yn rhy gyfyngol;
- Cyflwynwyd nifer o gynigion amgen.

Trosolwg

3.64 Er bod cytundeb cyffredinol ag egwyddor cyfyngu ar newidiadau i gais unwaith ei fod yn destun apêl, cyflwynwyd rhai dadleuon cryf yn ei herbyn.

3.65 O'r rhai a gytunodd, nododd un ymatebydd o blith y categori Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall ac un ACLI y dylai diwygiadau i gais gael eu hystyried gan yr ACLI yn y lle cyntaf neu drwy'r darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno cais arall nad yw'n denu ffi. Nododd un ACLI arall y byddai dull gweithredu o'r fath yn galluogi'r ACLI i ymgynghori'n fwy effeithiol â'r cyhoedd ar y diwygiad, ei gwneud yn haws i'r cyhoedd gael gafael ar wybodaeth, ac yn galluogi'r ACLI i barhau i fod yn atebol am unrhyw benderfyniad canlyniadol. Nododd dau ACLI y byddai'r cynnig yn golygu na fyddai apelwyr yn ceisio ailwampio eu cynllun yn ystod apêl.

3.66 Roedd un ACLI o blaid y cynnig, gan nodi y gallai'r rhan fwyaf o ddiwygiadau ar ôl penderfyniad fod wedi'u gwneud cyn cyhoeddi penderfyniad, ond mai awydd yr ymgeisydd neu'r apelydd i brofi newidiadau yn ystod apêl sydd, yn aml, yn gwneud y broses yn hirach. Nododd ACLI arall nad oes digon o amser fel arfer i asesu'n briodol ddiwygiadau sy'n codi yn ystod y broses apelio.

3.67 Mynegwyd pryder gan rai ynglŷn â sut y câi'r cynnig ei roi ar waith yn ymarferol. Roedd un ymatebydd o blith y categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Diddordeb

o'r farn y dylai fod cyfle i wneud sylwadau ar unrhyw newid a wnaed i'r amgylchiadau. Awgrymodd un corff arall o'r fath ac ACLI y dylai'r amgylchiadau a ragnodir gael eu drafftio a'u profi'n drylwyr er mwyn i'r cyhoedd a defnyddwyr gadw hyder yn y system apelio.

- 3.68 Anghytunodd rhai ymatebwyr â'r cynigion. Awgrymodd un ymatebydd o blith y categori Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall ac un o blith y categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Diddordeb y byddai'r gofyniad i gyflwyno cais cynllunio newydd er mwyn sicrhau diwygiad yn achosi mwy o oedi, sy'n mynd yn groes i'r cynigion ar gyfer apelïadau a geir yn y papur ymgynghori. Awgrymodd un ymatebydd o blith y categori Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio na fyddai'r cynnig yn ei gwneud yn bosibl i'r cynllun gorau posibl fynd rhagddo ar apêl.
- 3.69 Nododd ymatebwyr o blith y categori Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio ac un ymatebydd o blith y categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Diddordeb fod y cynnig yn dileu agwedd hyblyg bwysig ar y broses apelio. Roedd yr ymatebwyr hynny o'r farn bod yr elfen o ddisgresiwn a geir ar hyn o bryd a dyfarniad 'Wheatcroft' yn dal i fod yn gwbl briodol. Gall y cynnig arwain at wrthod apêl ar sail pwynt cymharol ddibwys.
- 3.70 Nododd ymatebydd arall o blith y categori Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio fod y cynnig yn mynd yn groes i ddull gweithredu 'synnwyr cyffredin', a chyfeiriodd at enghraifft o apêl ddeuol a nododd un arall enghraifft o wrthwynebiadau hwyr i gais gan ymgynghoreion statudol. Trafododd ymatebydd o blith y categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Diddordeb broses y Gorchymyn Caniatâd Datblygu fel enghraifft o'r gallu i wneud diwygiadau.
- 3.71 Wrth feirniadu'r rhesymeg a amlinellwyd yn y papur ymgynghori, holodd un ymatebydd o blith y categori Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio pam y byddai ymgeisydd yn peidio â datgelu gwybodaeth yn fwriadol tan y cam apelio.
- 3.72 Awgrymwyd cynigion amgen gan rai. Awgrymodd un ACLI ac un ymatebydd o blith y categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Diddordeb y dylid ystyried mwy o hysbysu a chyhoeddusrwydd pe bai newidiadau. Awgrymodd un ymatebydd o blith y categori Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio ac un ymatebydd o blith y categori Eraill y dylai diwygiadau gael eu cofnodi mewn Datganiadau Tir Cyffredin, sy'n annog apelwyr ac ACLlau i siarad â'i gilydd yn ystod y broses apelio.
- 3.73 Awgrymodd un ymatebydd o blith y categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Diddordeb ac un ACLI amrywiad ar thema cyfyngu ar ddiwygiadau ac awgrymwyd y dylid caniatáu diwygiadau ansylweddol. Nododd un ymatebydd o blith y categori Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio y gellid ymdrin â mater

diwygiadau yn ystod apêl drwy roi pŵer i'r sawl sy'n gwneud penderfyniad fynnu newidiadau, fel y'u cyfarwyddir ganddo/ganddi.

- 3.74 Er mwyn gweithredu'r newidiadau, codwyd yr angen i godi ymwybyddiaeth o'r newid drwy ganllawiau priodol gan nifer o ymatebwyr.

C8	Ymateb Llywodraeth Cymru
	<p>Nodwyd yr egwyddor o gyfyngu ar unrhyw ddiwygiad i apêl yn y papur ymgynghori ar Gynllunio Cadarnhaol a chafwyd cytundeb cyffredinol i'r cynnig hwn. Yna cafodd y cynnig hwn ei gynnwys yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn a.47. Ceir bwriad pendant i gychwyn y ddarpariaeth hon, ond yr amgylchiadau lle y gall diwygiadau ddigwydd fu testun yr ymgynghoriad hwn.</p> <p>Gwnaed awgrymiadau i'w gwneud yn bosibl i'r cyhoedd wneud sylwadau ar unrhyw ddiwygiad i gais yn ystod apêl. Er yr anogir ymgynghori pan fo newidiadau sylweddol i unrhyw gais, mae'r diwygiadau a nodir yn y papur ymgynghori hwn ond yn cyfeirio at wallau darlunio. Pan na fydd y diwygiadau hynny i wallau yn effeithio ar bartïon, ni fydd angen ymgynghori ar y diwygiadau hynny.</p> <p>Ni roddwyd tystiolaeth ddigonol i ategu honiadau y bydd y cynnig yn arwain at fwy o oedi yn y broses gynllunio. Sail yr egwyddorion hyn yw annog ymgeiswyr i drafod unrhyw ddiwygiadau ag ACLlau yn y lle cyntaf, gan osgoi'r angen am apêl. Pan gaiff cais ei wrthod gan yr ACLI ar ôl diwygiad, bydd yr ymgeisydd yn cael sicrwydd mai'r cais gorau posibl sy'n cael ei gyflwyno fel apêl, pe bai'n dymuno gwneud hynny.</p> <p>Gwnaed awgrymiadau y dylai diwygiadau gael eu cynnwys mewn Datganiadau Tir Cyffredin. Er yr anogir unrhyw gytundeb rhwng yr ACLI a'r ymgeisydd, ni welwn fod angen i'r cytundeb hwnnw mewn perthynas â chynllun wedi'i ddiwygio godi yn ystod y broses apelio.</p> <p>Gwnaed awgrymiadau hefyd sy'n cyfyngu diwygiadau i fân ddiwygiadau neu rai ansylweddol ac i roi pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo diwygiadau. Yn ein barn ni, nid yw'r cynigion yn atal y naill achos na'r llall rhag digwydd. Mae A.96A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn sefydlu proses o gymeradwyo mân ddiwygiadau neu ddigwygiadau ansylweddol yn ffurfiol ar ôl i ganiatâd cynllunio gael ei roi. Gall apelwyr llwyddiannus ddefnyddio'r broses hon. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn cadw'r gallu i ganiatáu diwygiad i gais cymeradwy neu apêl yn ddarostyngedig i amod cyn cychwyn wedi'i eirio'n briodol. Rydym o'r farn bod hyn yn ddigon i osgoi'r posibilrwydd y caiff apêl ei diddymu ar sail mân bwynt.</p>

Awgryma ein tystiolaeth o'r Alban fod darpariaeth i atal diwygiadau i gais yn ystod apêl wedi bod yn llwyddiannus. Mae Llywodraeth yr Alban wedi penodi panel annibynnol yn ddiweddar i adolygu'r system gynllunio. Yn ei hadroddiad, Empowering Planning to Deliver Great Places, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2016, ni chafodd unrhyw newidiadau eu hawgrymu yn hyn o beth.

Y camau nesaf

- 3.75 Bwriedir cychwyn a.47 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 a chyfyngu'r amgylchiadau lle y gall diwygiad ddigwydd i gais ar ôl apêl i wallau darlunio neu ddrafftio nad ydynt yn effeithio ar sylwedd y cais. Er mwyn ategu'r cynnig hwn, bwriedir paratoi canllawiau clir i gefnogi'r newid hwn.

C9	A ydych yn cytuno â'r amgylchiadau lle gellir cyflwyno gwybodaeth newydd yn ystod apêl neu gais a alwyd i mewn? Os nad ydych, pam?
Cynigiodd yr ymgynghoriad y dylid cyfyngu ar godi materion newydd mewn apêl. Dim ond pan fydd modd profi na ellid bod wedi codi mater newydd pan oedd yr ACLI yn ystyried y cais neu pan godir mater newydd o ganlyniad i amgylchiadau eithriadol y caiff materion newydd eu codi. Gofynnwyd am sylwadau ar y cynnig hwn.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw /Ydyn	Ydw/Ydyn (Yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydw/ydyn	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	0	1	0	2
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	7	2	1	1	11
C	Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	0	0	2	4
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Diddordeb	1	1	1	0	3
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	0	0
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	0	2	0	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		11	5	3	4	23

	Ydw/Ydyn, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw/ydyn
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	16	3
Cyfanswm y ganran	84%	16%

Adolygiad ystadegol

3.76 Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr â'r amgylchiadau lle y gellir codi materion newydd yn ystod apêl. O'r grwpiau hynny o ymatebwyr a gytunodd, ACLlau a Grwpiau Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall a gytunodd fwyaf â'r cynigion fel cyfran. Cymysg fu'r ymateb ymhlith ymatebwyr o blith y categorïau Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio a Chyrff Proffesiynol / Grwpiau â Diddordeb.

Themâu allweddol

3.77 Mae'r themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 9 fel a ganlyn:

- Mynegwyd ychydig o amwysedd ynglŷn â'r amgylchiadau lle y gellir codi materion newydd yn ystod apêl;
- Dadleuwyd dros y gofyniad am hyblygrwydd o hyd yn y broses apelio;
- Er iddynt gytuno â'r amgylchiadau a nodwyd, awgrymodd nifer o ymatebwyr amgylchiadau ychwanegol lle y gellir codi materion yn ystod apêl.

Trosolwg

3.78 Cafwyd cytundeb cyffredinol â'r cynnig i gyfyngu ar godi materion newydd yn ystod apêl.

3.79 O'r rhai a gytunodd, dadleuodd un ACLI dros yr angen i gymhwyso'r meini prawf yn gaeth er mwyn cadarnhau'n glir beth yw 'eithriadol' neu fel arall. Roedd un ACLI o blaid atal ACLlau, apelwyr a thrydydd partïon rhag cynnwys sylfaen dystiolaeth a oedd wedi'i newid yn sylweddol. Dylai'r cais i godi materion newydd gael ei herio ar gam dilysu apêl. Nododd un ymatebydd o blith y categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Diddordeb, er ei fod yn cytuno â'r amgylchiadau, y dylai fod cyfle i bartïon wneud sylwadau ar unrhyw wybodaeth newydd.

3.80 Nododd un ymatebydd o blith y categori Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio ac un o blith y categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Diddordeb, er eu bod yn cytuno â'r amgylchiadau a nodwyd yn y papur ymgynghori, y dylid ychwanegu amgylchiadau eraill. Maent yn cytuno y gellir codi materion newydd pan fydd yr ACLI a'r apelydd yn cytuno drwy Ddatganiad Tir Cyffredin. Mae'r ymatebwyr hefyd yn annog cytundebau sy'n dileu rhesymau 'llai' dros wrthod drwy gyflwyno gwybodaeth newydd.

3.81 Fel amrywiad ar y cynnig, mae un ymatebydd o blith y categori Eraill o'r farn y gellir codi materion newydd ar yr amod nad yw'n newid y seiliau dros apelio mewn ffordd berthnasol.

- 3.82 Cododd nifer o ymatebwyr o blith yr ACLlau bryderon ynglŷn ag amwysedd yr amgylchiadau lle y gellir codi materion newydd. Roedd y rhain yn cynnwys sut y gellid gweithredu'r meini prawf arfaethedig ar gyfer codi materion newydd yn gyson ac yn deg. Roedd angen ystyriaeth ofalus ynglŷn â'r diffiniad o amgylchiadau eithriadol.
- 3.83 Codwyd pryderon hefyd gan un ACLI ynglŷn â sut y câi'r cynigion eu gweithredu, ac a fyddai amserlen ar gyfer cyflwyno gwybodaeth newydd. Mae angen ystyried y goblygiadau i bob parti.
- 3.84 Nododd un ymatebydd o blith y categori Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio fod atal partiön rhag codi gwybodaeth newydd, yn enwedig gwybodaeth amgylcheddol, yn codi'r risg o her gyfreithiol, gan fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y sawl sy'n gwneud penderfyniad i ystyried gwybodaeth amgylcheddol berthnasol os mai prosiect Asesiad Effaith Amgylcheddol ydyw. Anghytunodd ymatebydd arall o blith y categori Eraill ag atal unrhyw fater newydd rhag cael ei godi.
- 3.85 I'r gwrthwyneb, nododd un ACLI, ei fod yn croesawu'r newidiadau arfaethedig, fod yr amgylchiadau yn codi pryderon ynglŷn â thryloywder a thegwch y system apelio, a mynegwyd dymuniad na ddylid caniatáu unrhyw eithriadau.

C9 Ymateb Llywodraeth Cymru

Nodwyd yr egwyddor o gyfyngu ar godi unrhyw faterion newydd yn ystod apêl yn y papur ymgynghori ar Gynllunio Cadarnhaol a chafwyd cytundeb cyffredinol i'r cynnig hwn. Yna cafodd y cynnig hwn ei gynnwys yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn a.50. Ceir bwriad pendant i gychwyn y ddarpariaeth hon, a'r amgylchiadau lle y gall diwygiadau ddigwydd fu testun yr ymgynghoriad hwn.

Cafwyd nifer o sylwadau ynglŷn â'r angen i gymhwyso'r amgylchiadau'n gaeth a sicrhau cysondeb ar unwaith. Rydym yn cefnogi'r farn hon a byddwn yn ceisio paratoi canllawiau sy'n nodi sut y gellir diffinio amgylchiadau eithriadol.

Er mwyn mynd i'r afael â'r sylwadau ynglŷn ag amwysedd y cynigion hyn, byddwn yn egluro'r term 'materion'. Er nad yw hyn wedi'i ddiffinio yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn ein barn ni, mae hyn yn dynodi mater neu bwnc yn hytrach nag unrhyw eitem benodol o dystiolaeth neu unrhyw ddogfen. Byddwn yn ceisio sicrhau, pan fydd gwybodaeth neu ddogfennaeth newydd yn ymwneud â materion a ystyriwyd gan yr ACLI, na fyddwn yn eu hystyried fel materion newydd, er nad oedd y ddogfen

gerbron yr ACLI ar adeg gwneud ei benderfyniad.

Ni fydd yr uchod yn atal gwybodaeth amgylcheddol newydd na gwybodaeth sy'n berthnasol i'r apêl rhag cael ei chyflwyno.

Awgryma ein tystiolaeth o'r Alban fod darpariaeth i atal diwygiadau i gais yn ystod apêl wedi bod yn llwyddiannus. Mae Llywodraeth yr Alban wedi penodi panel annibynnol yn ddiweddar i adolygu'r system gynllunio. Yn ei hadroddiad, Empowering Planning to Deliver Great Places, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2016, ni chafodd unrhyw newidiadau eu hawgrymu yn hyn o beth.

Y camau nesaf

- 3.86 Cynigir y dylid gweithredu'r cynigion fel y'u nodwyd yn y papur ymgynghori. O'r ymatebion, mae'n amlwg bod angen rhagor o ganllawiau i gefnogi'r cynigion hyn sy'n nodi enghreifftiau o sut y byddai'r eithriadau neu'r amgylchiadau yn gymwys. Ni nododd yr ymatebion unrhyw amgylchiadau a fyddai'n cefnogi codi materion newydd, ond bydd eglurhad yn y canllawiau y gellir codi gwybodaeth newydd pan fydd yn ymwneud â mater a godwyd eisoes.

C10	A ydych yn cytuno â'n cynigion i gyflwyno terfyn amser o 6 mis ar gyfer apeliadau tystysgrif cyfreithlondeb yn erbyn penderfyniad gan ACLI? Os nad ydych, pam?
Nid yw apeliadau yn erbyn tystysgrifau cyfreithlondeb yn destun terfyn amser statudol y mae'n rhaid apelio oddi mewn iddo. Cynigir y dylid cyflwyno terfyn amser o 6 mis o ddyddiad penderfyniad yr ACLI. Mae'r papur ymgynghori yn ceisio cytundeb ynglŷn â'r cynnig hwn.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw /Ydyn	Ydw/Ydyn (Yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydw/ydyn	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	0	0	1	2
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	9	1	0	1	11
C	Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	0	0	2	4
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Diddordeb	2	0	0	1	3
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	0	0
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	2	0	0	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		16	1	0	6	23

	Ydw/Ydyn, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw/ydyn
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	17	0
Cyfanswm y ganran	100%	0%

Adolygiad ystadegol

3.87 Cytunodd pob ymatebydd â'r cynnig y dylid cyflwyno terfyn amser o 6 mis ar gyfer apeliadau tystysgrif cyfreithlondeb.

Themâu allweddol

3.88 Mae'r themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 10 fel a ganlyn:

- Cafwyd cefnogaeth unfrydol i'r cynnig;
- Byddai'r terfyn amser yn sicrhau cysondeb â mathau eraill o apeliadau.

Trosolwg

3.89 Cafwyd cefnogaeth unfrydol i'r cynnig y dylid cyflwyno cyfnod lle y gellir cyflwyno apêl ynglŷn â phenderfyniad sy'n ymwneud ar dystysgrif cyfreithlondeb.

3.90 Ystyrir bod 6 mis yn gyfnod priodol gan y mwyafrif o'r ymatebwyr. Nododd un ymatebydd o blith y categori Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall y bydd y cynnig yn sicrhau cysondeb â'r mathau eraill o apeliadau cynllunio. Awgrymwyd cyfnod o 3 mis gan un ACLI, gan fod ceisiadau o'r fath yn ymdrin â materion cyfreithlondeb yn hytrach na theilyngdod.

3.91 Roedd un ACLI yn cefnogi'r cynnig am fod tystysgrifau cyfreithlondeb yn rhoi cipolwg ar adeg benodol. Ni fyddai'n rhesymol gadael i ormod o amser fynd heibio rhwng penderfyniad ac unrhyw apêl.

C10 Ymateb Llywodraeth Cymru

Ceir cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig y dylid cyflwyno terfyn amser o 6 mis yn achos apeliadau sy'n ymwneud â thystysgrifau cyfreithlondeb. Er cysondeb â mathau eraill o apêl, ystyrir bod 6 mis yn gyfnod rhesymol a phriodol i gasglu tystiolaeth ddigonol.

Y camau nesaf

3.92 Bwriedir diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 sy'n cyflwyno cyfnod o 6 mis y gellir cyflwyno apêl oddi mewn iddo pan fydd yn ymwneud â phenderfyniad ynglŷn â thystysgrif cyfreithlondeb.

C11	A ydych yn cytuno y dylai Gweinidogion Cymru allu adennill eu costau eu hunain? Os nad ydych, pam?
Er bod deddfwriaeth yn caniatáu iddynt wneud hynny, nid yw Gweinidogion Cymru yn hawlio eu costau eu hunain pan fydd ymddygiad afresymol yn digwydd yn ystod gweithrediadau, sy'n achosi cost ddiangen iddynt. Cynigir y dylai Gweinidogion Cymru ddefnyddio eu pwerau i'w galluogi i adennill eu costau eu hunain. Gofynnodd yr ymgynghoriad a gytunodd ymatebwyr â'r cynnig hwn.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw /Ydyn	Ydw/Ydyn (Yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydw/ydyn	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	0	0	1	2
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	4	4	2	1	11
C	Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	2	1	0	1	4
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Diddordeb	2	1	0	0	3
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	0	0
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	2	0	0	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		11	6	2	4	23

	Ydw/Ydyn, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw/ydyn
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	17	2
Cyfanswm y ganran	89%	11%

Adolygiad ystadegol

- 3.93 Cytunodd pob grŵp o ymatebwyr y dylai fod modd i Weinidogion Cymru adennill eu costau eu hunain. O'r rhain, dim ond 2 ymatebydd a anghytunodd â'r cynigion, sef dau ACLI.

Themâu allweddol

- 3.94 Mae'r themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 11 fel a ganlyn:

- Cafwyd cefnogaeth glir i'r cynnig;
- Mae'n rhaid i unrhyw gostau fod yn rhesymol ac yn rhai y gellir eu cyfiawnhau;
- Mae angen mwy o fanylion i esbonio'r weithdrefn arfaethedig ar gyfer adennill costau.

Trosolwg

- 3.95 Cefnogwyd y cynnig gan y mwyafrif o'r ymatebwyr. Cafwyd sylwadau, gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig, yn holi sut y byddai gosod costau ar ACLlau yn adennill costau wedi'u gwastraffu a chostau diangen i bwrs y wlad. Awgrymwyd mai dim ond pan fydd ymddygiad afresymol neu o dan amgylchiadau eithriadol y dylai costau o'r fath gael eu dyfarnu. Ni ddylai costau gael eu dyfarnu i Weinidogion Cymru o reidrwydd ar ôl i gostau gael eu dyfarnu i apelydd, neu ACLI. Teimlai un ymatebydd y gall y cynnig atal ceisiadau rhag cael eu gwrthod heb gyfiawnhad digonol.
- 3.96 Gofynnodd ymatebwyr eraill, unwaith eto y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig, am ragor o wybodaeth am sut y bydd y broses o adennill costau yn gweithredu, pa gorff fydd yn gyfrifol am benderfynu ar y cais a ph'un a fyddai cyfle i bartïon ymateb neu herio'r penderfyniad. Nodwyd bod angen system glir, dryloyw a chyson.
- 3.97 Roedd dau ymatebydd, y ddau'n ACLlau, o'r farn na ddylai fod modd i Weinidogion Cymru adennill costau. Nododd un o'r ymatebwyr hyn fod Gweinidogion Cymru eisoes yn cael eu hariannu'n gyhoeddus i gyflawni'r swyddogaeth hon. Holodd y llall a oedd unrhyw dystiolaeth i gefnogi newid y system bresennol. Mynegodd yr ymatebydd bryderon hefyd ynglŷn â'r angen am sicrhau gwrthrychedd a hyder y cyhoedd gan na fydd y cyhoedd yn

gwahaniaethu rhwng y cyrff dyfarnu (Cyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gynllunio Cymru) o bosibl. Awgrymodd yr un ymatebydd y dylid cyflwyno ffi, yn debyg i'r ffi ymgeisio, os yw Llywodraeth Cymru yn pryderu ynglŷn ag adennill costau mewn gwirionedd yn hytrach na'r rheswm a nodwyd, sef atal ymddygiad afresymol.

C11	Ymateb Llywodraeth Cymru
<p>Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru adennill eu costau eu hunain mewn perthynas ag apêl. Mae hyn yn adlewyrchu'r gefnogaeth i egwyddor ein cynigion fel yr ymgynghorwyd arnynt yn y papur ymgynghori ar Gynllunio Cadarnhaol.</p> <p>Gofynnodd ymatebwyr am ragor o wybodaeth ynglŷn â sut y bydd y broses o adennill costau yn gweithredu. Bwriadwn nodi'r manylion ynglŷn â'r broses yn yr Atodiad i'r canllawiau diwygiedig ar gostau.</p> <p>Cafwyd sylwadau ynglŷn â chwmpas dyfarnu costau i Weinidogion Cymru. Bwriadwn ei gwneud yn glir na chaiff costau eu hadennill yn awtomatig gan Weinidogion Cymru pan gaiff costau eu dyfarnu i'r apelydd neu'r ACLI. Pan fydd ymddygiad afresymol sydd wedi achosi costau wedi'u gwastraffu a diangen i apelydd neu'r ACLI, nid yw'n golygu o reidrwydd y byddai Gweinidogion Cymru yn ysgwyddo costau o'r fath ym mhob achos.</p> <p>Awgrymodd un ymatebydd y dylid codi ffi am apeliadau. Roedd yr ymateb i'r papur ymgynghori ar Gynllunio Cadarnhaol yn glir yn yr ystyr nad oes cefnogaeth ar hyn o bryd i ffioedd ar gyfer apeliadau. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa hon.</p>	

Y camau nesaf

- 3.98 Bwriedir bwrw ymlaen â'r canllawiau wedi'u diweddarau sy'n nodi'r broses o ddyfarnu costau, a fydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru adennill eu costau eu hunain pan fydd ymddygiad afresymol sy'n achosi iddynt fynd i gostau wedi'u gwastraffu a diangen.
- 3.99 Byddwn hefyd yn parhau i adolygu priodoldeb ffioedd mewn perthynas ag apeliadau. Os caiff ffioedd ar gyfer apeliadau eu cynnig, byddwn yn ymgynghori ymhellach ar yr amgylchiadau a'r ffioedd sy'n gysylltiedig â hwy.

C12	A ydych yn cytuno â'r sail dros ymddygiad afresymol a nodir yn y fersiwn ddrafft o'r canllawiau wedi'u diweddarau (yn Atodiad C)? Os nad ydych, nodwch seiliau amgen neu ychwanegol.
Mae'r canllawiau wedi'u diweddarau ar gostau yn nodi nifer o seiliau a all fod yn gyfystyr ag ymddygiad afresymol. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn a yw'r ymatebwyr yn cytuno â'r rhestr o seiliau.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw /Ydyn	Ydw/Ydyn (Yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydw/ydyn	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	2	0	0	0	2
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	5	4	1	1	11
C	Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	0	0	3	4
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Diddordeb	2	1	0	0	3
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	0	0
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	2	0	0	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		12	5	1	5	23

	Ydw/Ydyn, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw/ydyn
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	17	1
Cyfanswm y ganran	94%	6%

Adolygiad ystadegol

3.100 Cytunodd pob grŵp o ymatebwyr â'r seiliau a nodwyd yn y canllawiau drafft. O'r rhain, dim ond 1 ACLI a anghytunodd â'r cynigion.

Themâu allweddol

3.101 Mae'r themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 11 fel a ganlyn:

- Cafwyd cefnogaeth glir i'r cynnig;
- Cafwyd rhai sylwadau a phryderon ynglŷn â'r enghreifftiau o ymddygiad afresymol

Trosolwg

3.102 Cefnogwyd y cynnig gan y mwyafrif o'r ymatebwyr. Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau manwl i ategu eu cefnogaeth. Awgrymodd un ymatebydd y dylid ystyried penderfyniad i wrthod cydweithredu ac oedi cyn rhoi gwybodaeth yn ymddygiad afresymol gan apelwyr yn ogystal ag ACLlau. Mynegodd un arall bryder fod yr enghreifftiau o ymddygiad afresymol yn rhy ragnodol a gofynnodd a fyddai gweithdrefn apelio ar waith i herio penderfyniadau ar gostau. Roedd un ymatebydd, mewn perthynas â pharagraff 2.5 o Atodiad C, o'r farn y dylai "dim rhagolygon rhesymol o lwyddo" fod yn sail hunangynhwysol dros gostau yn hytrach nag yn ofyniad i'w fodloni cyn y gellir ystyried dyfarnu costau sylweddol.

3.103 Teimlai nifer o ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig na ddylai rhai o'r seiliau a gynigiwyd fod yn "ymddygiad afresymol":

- Dylai "Peidio â phenderfynu na rhoi safbwynt ar achos tebyg mewn modd cyson" ond gael ei ystyried yn ymddygiad afresymol pan na fu newid perthnasol yn yr amgylchiadau;
- Dylai "cyflwyno seiliau dros apelio, tystiolaeth neu wybodaeth berthnasol newydd yn hwyr yn y gweithrediadau" gael ei ddileu fel enghraifft o ymddygiad afresymol gan y byddai ymddygiad o'r fath yn cael ei atal gan gynnig y papur ymgynghori i'w gwneud yn ofynnol i'r Arolygiaeth Gynllunio ymdrin â'r cais ar y ffurf y'i hystyriwyd gan yr ACLI;
- "Atal neu oedi datblygiad a ddylai gael caniatâd...". - mater i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad yw p'un a ddylid caniatáu datblygiad;
- "Methu â phenderfynu ar gais o fewn terfynau amser statudol, lle mae'n amlwg nad oedd unrhyw reswm sylweddol dros gyfiawnhau oedi cyn penderfynu ar y cais" neu "lle y gellid bod wedi osgoi apêl gorfodi

oherwydd ymchwiliad annigonol neu gyfathrebu annigonol ar ran yr awdurdod cynllunio lleol". Nid yw ACLIau yn peri 'oedi' i geisiadau'n fwriadol ac ystyrir y gallai'r sail hon fod yn wrthgynhyrchiol o ran annog partïon i apelio mewn gwirionedd;

- Ni ddylai "...ei gwneud yn ofynnol i'r apelydd neu'r ymgeisydd ymrwymo i rwymedigaeth gynllunio nad yw'n unol â'r gyfraith na'r polisi perthnasol" ynddo'i hun fod yn sail dros ymddygiad afresymol, ar yr amod bod yr ACLI wedi ceisio cyfiawnhau'r rhesymau dros wneud cais o'r fath (hyd yn oed os na fydd yn llwyddo i argyhoeddi Arolygydd);
- Nid ystyrir bod "gwrthod caniatâd ar sail y gellir ymdrin â hi drwy amod, lle y deuir i'r casgliad y byddai amodau addas yn ei gwneud yn bosibl i'r datblygiad fynd rhagddo" ynddo'i hun yn gyfystyr ag ymddygiad afresymol. Dim ond mewn achosion amlwg lle mae ACLI wedi gwrthod gosod amod o'r fath ar gais, heb reswm, y dylai fod yn sail dros gostau.

3.104 Mae un ymatebydd o blith y categori Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall yn gofyn am sicrwydd, pa fydd ei chyngor/gyngor yn newid o ganlyniad i wybodaeth na ellid bod wedi ei chael ar gam cynharach, neu mewn ymateb i newid yn y cais, na fyddai hyn yn cael ei ystyried yn ymddygiad afresymol.

3.105 Noda ymatebydd, ym mharagraff 2.9, fod y cyfeiriad at 'brofion' yr amodau ym mhwyntiau bwled 2 a 13 yn cael ei ddyblygu.

3.106 Dim ond un ymatebydd a anghytunodd â'r seiliau a gynigiwyd ar gyfer ymddygiad afresymol a nodwyd yn y papur ymgynghori. Y pryderon penodol a fynegwyd gan yr ymatebydd yw:

- Caiff ffioedd cynllunio eu had-dalu ar ôl 16 wythnos felly bydd unrhyw benderfyniad ar ôl y cyfnod hwn yn afresymol o bosibl, yn hytrach nag ar ôl 8 wythnos;
- Os bydd Arolygydd yn dileu amod yn ystod apêl, y goblygiad yw bod hwn yn fater y gellir dyfarnu costau ar ei gyfer yn awtomatig, a dylai'r pwynt hwn gael ei ailystyried;
- Dylai pob cais gael ei ystyried ar ei deilyngdod ei hun. Oherwydd yr egwyddor hon, mae "Atal neu oedi datblygiad a ddylai gael caniatâd..." a "Peidio â phenderfynu na rhoi safbwynt ar achosion tebyg mewn modd cyson" yn "nonsens" fel seiliau ar gyfer ymddygiad afresymol;

- Mae angen egluro “diffyg cydweithredu mewn perthynas ag unrhyw rwymedigaeth gynllunio” fel ymddygiad afresymol gan nad oes angen i ACLlau, drwy statud, negodi Cytundeb Cyfreithiol am gyfnod o 5 mlynedd.

C12 Ymateb Llywodraeth Cymru

Awgrymodd nifer o ymatebwyr na ddylai rhai o'r seiliau a restrwyd ar gyfer ymddygiad afresymol gyfiawnhau dyfarnu costau ym mhob achos. Rydym yn cytuno â'r sylw hwn ac rydym yn pwysleisio bod yn rhaid i'r enghreifftiau o ymddygiad afresymol fodloni meini prawf eilaidd yn yr ystyr bod yn rhaid bod y costau wedi'u gwastraffu neu ddiangen wedi digwydd er mwyn cyfiawnhau dyfarnu costau.

Wrth benderfynu ar ddyfarnu costau, mae Gweinidogion Cymru yn ymwybodol bod amgylchiadau yn wahanol ym mhob achos. I'r perwyl hwnnw, ni châi costau eu dyfarnu ym mhob achos lle mae enghraifft o ymddygiad afresymol wedi digwydd. Bwriad yr enghreifftiau yw rhoi mwy o eglurder i apelwyr, ymgeiswyr ac ACLlau, o ran diffinio'r amgylchiadau nodweddiadol lle y gellir dyfarnu costau.

Cafwyd sylwadau a oedd yn gofyn am ddiwygio neu ddileu rhai enghreifftiau o ymddygiad afresymol. Rydym wedi adolygu pob un o'r sylwadau hynny a byddwn yn diwygio'r enghreifftiau er mwyn sicrhau manwl gywirdeb ac eglurder i bob parti, yn enwedig lle maent yn ymwneud â sylwadau a wnaed gan ymgynghoreion statudol ac achosion lle mae ail gais wedi'i wneud sy'n debyg i'r un a wrthodwyd yn ystod apel yn flaenorol. Ni fwriedir dileu unrhyw un o'r enghreifftiau o ymddygiad afresymol yn eu cyfanrwydd.

Cafwyd nifer o sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn y tu hwnt i gwmpas y cwestiwn hwn yn gofyn am ddull o atal apelwyr rhag hawlio eu bod yn ystyried gwneud cais am gostau er mwyn sicrhau ystyriaeth drwy weithrediadau llafar. Bwriedir i'r canllawiau diwygiedig a'r gallu i Arolygydd benderfynu ar y weithdrefn gael gwared ar y gallu hwn. Gellir dyfarnu costau ar gyfer apeliadau a cheisiadau yr ymdrinnir â hwy drwy sylwadau ysgrifenedig.

Y camau nesaf

- 3.107 Yn sgil y sylwadau a gafwyd, bwriedir parhau â'r enghreifftiau a nodwyd yn y canllawiau drafft. Caiff rhai enghreifftiau eu diwygio er mwyn sicrhau manwl gywirdeb ac eglurder. At hynny, bydd y canllawiau cyhoeddiedig yn rhoi mwy o bwyslais ar y gofyniad i ymddygiad afresymol ddigwydd yn ogystal â chostau wedi'u gwastraffu a diangen er mwyn cyfiawnhau dyfarnu costau.

C13	A ydych yn cytuno â'r broses ar gyfer dyfarnu costau a nodir yn Atodiad A i'r fersiwn ddrafft o'r canllawiau wedi'u diweddarau (yn Atodiad C)? Os nad ydych, pam?
------------	---

Mae Atodiad A i'r canllawiau wedi'u diweddarau ar gostau ar ffurf drafft yn nodi proses o ddyfarnu costau, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr wneud cais am gostau ar y cam cynharaf posibl. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn a yw'r ymatebwyr yn cytuno â'r broses.

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw /Ydyn	Ydw/Ydyn (Yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydw/ydyn	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	2	0	0	0	2
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	5	3	2	1	11
C	Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	1	0	2	4
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Diddordeb	1	1	0	1	3
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	0	0
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	2	0	0	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		11	5	2	5	23

	Ydw/Ydyn, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw/ydyn
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	17	2
Cyfanswm y ganran	89%	11%

Adolygiad ystadegol

3.108 Ar y cyfan cytunodd pob grŵp o ymatebwyr â'r broses o ddyfarnu costau, fel y'i nodwyd. O'r rhain, dim ond 2 ymatebydd a anghytunodd â'r cynigion, sef dau ACLI.

Themâu allweddol

3.109 Mae'r themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 13 fel a ganlyn:

- Cafwyd cefnogaeth glir i'r cynnig;
- Gofynnwyd am fwy o fanylion ynglŷn â'r broses o ddyfarnu costau.

Trosolwg

- 3.110 Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Gwnaeth rhai ymatebwyr, a gefnogodd y cynnig, rai sylwadau manwl. Roedd dau ymatebydd o'r farn y dylai apelwyr gyflwyno cais am gostau gyda'r datganiad achos ac mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid caniatáu cyfle i wneud cais am gostau mewn gwrandawriad neu ymchwiliad. Mae un ymatebydd o blith y categori Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall wedi gofyn am sicrwydd, pan fydd ei chyngor/gyngor yn newid o ganlyniad i wybodaeth na ellid bod wedi'i chael ar gam cynharach, neu mewn ymateb i newid yn y cais, na fyddai hyn yn cael ei ystyried yn ymddygiad afresymol.
- 3.111 Gofynnodd rhai ymatebwyr am fwy o fanylion ynglŷn â'r broses o ddyfarnu costau, gan gynnwys rôl yr Arolygydd a phartïon eraill. Awgrymwyd siart lif fel ffordd o dywys rhanddeiliaid drwy'r broses.
- 3.112 Gofynnodd un ACLI am eglurder ynglŷn â'r broses o ddyfarnu costau lle maent yn ymwneud â cheisiadau gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Gofynnodd yr ymatebydd hwnnw hefyd a fyddai dyfarnu costau iddi yn ei gwneud yn llai tebygol y câi costau eu dyfarnu'n erbyn ACLlau.
- 3.113 Anghytunodd dau ymatebydd, sef dau ACLI, â'r weithdrefn ar gyfer dyfarnu costau a gynigiwyd. Roedd un o'r ACLlau hyn o'r fan bod y broses yn rhy ragnodol a theimlai y dylid rhoi mwy o ddisgresiwn i'r Arolygydd. Gofynnodd yr ACLI a fydd gweithdrefn apelio ar gyfer penderfyniadau ar gostau, yn enwedig achosion ar y ffin.
- 3.114 Mynegodd yr ACLI arall y pryder y caiff hyder y cyhoedd ei danseilio gan y bydd Arolygiaeth Gynllunio Cymru a Chyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru yn cael eu hystyried yn un corff, a bydd y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, oherwydd diffyg profiad o ymdrin â cheisiadau am gostau, yn rhy ddibynnol ar farn yr Arolygydd mewn perthynas â chostau. Yn seiliedig ar brofiad yr ACLI, caiff

ACLIau ac apelwyr eu trin yn wahanol gan Arolygwyr o ran dyfarnu costau. Mae'n rhaid i ACLIau gael eu trin yn deg yn y system, ac mae'n rhaid eu bod yn gallu gwrthod caniatâd cynllunio gyda hyder a chael costau, lle y gellir eu cyfiawnhau.

C13 Ymateb Llywodraeth Cymru

Cytunodd y mwyafrif i'r ymatebwyr â'r broses a gynigiwyd a bwriedir ei hymgorffori yn y canllawiau cyhoeddedig. Fodd bynnag, cafwyd rhai sylwadau ynglŷn ag eglurder y broses, yn enwedig lle maent yn ymwneud â dyfarnu costau i'r Arolygiaeth Gynllunio. Er mwyn lleddfu'r pryderon hyn, bwriedir egluro'r broses yn y canllawiau cyhoeddedig a chynnwys tabl symlach sy'n mynd i'r afael â'r broses o ddyfarnu costau.

Er i un ymatebydd nodi bod y broses yn rhy ragnodol, y feirniadaeth o'r trefniadau presennol yw nad oes proses glir wedi'i nodi. Mae'r canllawiau yn ceisio unioni hyn.

Gofynnodd un ymatebydd am sicrwydd na fyddai dyfarnu costau i'r Arolygiaeth Gynllunio yn arwain at ddyfarnu llai o gostau i'r ACLI. Mewn ymateb, nid yw'n fwriad bod hyn yn digwydd a dyfernir costau i bob parti yn ôl eu teilyngdod unigol lle maent yn bodloni meini prawf a byddant yn seiliedig ar gostau diangen neu gostau wedi'u gwastraffu y mae pob parti wedi mynd iddynt mewn gwirionedd, fel y'i nodwyd yn y canllawiau.

Gofynnodd un ymatebydd a oes proses apelio ar gyfer achosion sy'n ymwneud â chostau. Ni fwriedir newid y darpariaethau presennol yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i ychwanegu dull apelio arall. Os bydd parti yn teimlo ei fod wedi cael cam oherwydd gorchymyn costau, gellir ei herio'n statudol drwy'r llysoedd.

Y camau nesaf

- 3.115 Bwriedir ymgorffori'r broses fel y'i nodwyd yn y papur ymgynghori yn y canllawiau cyhoeddedig. Er eglurder a manwl gywirdeb, caiff gwybodaeth bellach ei hychwanegu mewn perthynas â dyfarnu costau i'r Arolygiaeth Gynllunio a chaiff tabl ei ychwanegu yn nodi'r broses o ddyfarnu costau.

C14	A ddylid cynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol yn y fersiwn ddrafft o'r canllawiau wedi'u diweddar (yn Atodiad C)?
Mae'r ymgynghoriad yn gofyn yn fras a ddylai unrhyw wybodaeth ategol gael ei chynnwys yn y cylchlythyr wedi'i ddiweddarau ar gostau sydd i'w gyhoeddi.	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw /Ydyn	Ydw/Ydyn (Yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydw/ydyn	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	0	0	1	1	2
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	2	0	8	1	11
C	Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	1	0	0	3	4
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Diddordeb	1	0	1	1	3
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	0	0
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	0	0	2	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		4	0	12	7	23

	Ydw/Ydyn, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw/ydyn
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	4	12
Cyfanswm y ganran	25%	75%

Adolygiad ystadegol

3.116 Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr na ddylid cynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol yn y canllawiau diwygiedig ar gostau. O'r rhain, cytunodd

ymatebwyr o blith y categorïau Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio ac Eraill yn llwyr nad oedd angen unrhyw wybodaeth ychwanegol. Cafwyd rhaniad cyfartal rhwng Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Diddordeb. Cytunodd y mwyafrif o'r ACLlau na ddylid cynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol, ond teimlai pob un o ymatebwyr o blith y categori Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall y dylai'r canllawiau diwygiedig drafft gynnwys gwybodaeth ychwanegol.

Themâu allweddol

3.117 Mae'r thema allweddol mewn ymateb i gwestiwn 14 fel a ganlyn:

- Cafwyd cytundeb cyffredinol nad oes angen gwybodaeth ychwanegol.

Trosolwg

3.118 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn nad oedd angen cynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol yn y canllawiau drafft. Fodd bynnag, gwnaed y sylwadau canlynol:

- Dylai'r canllawiau egluro a yw'r weithdrefn gostau hefyd yn gymwys i apeliadau yn erbyn amodau ar ganiatadau cynllunio;
- Byddai canllawiau symlach a mwy hwylus i ddefnyddwyr i'w croesawu.

C14	Ymateb Llywodraeth Cymru
Cafwyd mân sylwadau ynglŷn â chynnwys gwybodaeth ychwanegol yn y canllawiau diwygiedig ar gostau. Rydym o'r farn bod ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chwestiynau 12 a 13 o'r ymgynghoriad yn mynd i'r afael â'r sylwadau hyn.	

Y camau nesaf

3.119 Bwriedir bwrw ymlaen â'r amgylchiadau a'r broses a nodir yn y canllawiau drafft ar gostau, yn amodol ar ymateb Llywodraeth Cymru fel y'i nodwyd yng nghwestiynau 12 a 13 yn y ddogfen hon.

C15	A ydych yn cytuno â'r dull diwygiedig o godi symiau dyddiol am weithdrefnau cymwys ac ymchwiliadau lleol? Os nad ydych, pam?
<p>Ar hyn o bryd, codir y symiau dyddiol safonol ar gyfer gweithdrefnau cymwys fel cyfradd ddyddiol floc. Mae'r ymgynghoriad yn cynnig y dylid newid sut y codir y symiau dyddiol hynny er mwyn sicrhau y gellir codi am amser yr Arolygydd Cynllunio a chostau staff cyffredinol (gan gynnwys amser swyddog cynllunio ac amser staff gweinyddol) ar wahân ac yn gywir. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn a yw'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn a pham.</p>	

Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw /Ydyn	Ydw/Ydyn (Yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydw/ydyn	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	0	0	1	2
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	6	2	2	1	11
C	Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	0	0	0	4	4
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Diddordeb	1	1	0	1	3
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	0	0
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	2	0	0	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		10	3	2	8	23

	Ydw/Ydyn, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw/ydyn
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	13	2
Cyfanswm y ganran	87%	13%

Adolygiad ystadegol

3.120 Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr â'r dull diwygiedig o godi symiau dyddiol am weithdrefnau cymwys ac ymchwiliadau lleol. Cytunodd pob grŵp yn unfrydol â'r cynigion, ac eithrio ACLlau, y cytunodd mwyafrif ohonynt â'r cynnig.

Themâu allweddol

3.122 Mae'r themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 15 fel a ganlyn:

- Cafwyd cytundeb cyffredinol y dylid codi am amser yr Arolygydd ar wahân i amser y Swyddog Cynllunio;
- Cafwyd rhai ymholiadau ynglŷn â thegwch a swm y ffi i'w chodi;
- Dylai unrhyw gynnydd yn y cyfraddau dyddiol safonol gael ei wrthwynebu.

Trosolwg

3.123 Yr ACLlau sydd wedi gwneud y rhan fwyaf o'r sylwadau o sylwedd ynglŷn â'r cwestiwn hwn gan mai arnynt hwy'n bennaf y mae'r cynnig hwn yn effeithio.

3.124 Cytunodd nifer o ymatebwyr â'r egwyddor y dylid codi am amser yr Arolygydd ac amser y Swyddog Cynllunio ar wahân. Y manteision a nodwyd oedd y gellir codi'r symiau dyddiol safonol yn gywir, yn gyson a bod y cynnig yn caniatáu o hyd am godi am faterion eraill (nad yw swm dyddiol safonol yn gymwys iddynt). Fodd bynnag, nododd un ACLI na ddylai codi am amser y Swyddog Cynllunio gael ei weld yn daliad yn ychwanegol at y symiau dyddiol safonol presennol am Arolygwyr.

3.125 Cytunodd ymatebwyr â chwmpas y cynnig i godi ffi, sy'n cynnwys ymchwiliadau lleol a gweithdrefnau cymwys (sef archwiliadau'r Cynllun Datblygu Lleol ("CDLI") yn bennaf).

3.126 Cytunodd ACLlau a chyrrff proffesiynol â'r egwyddor yn amodol ar anfonebau sy'n rhestru eitemau ar gyfer achosion unigol, gan gynnwys sut y cafodd y symiau safonol eu cymhwyso. Cytunodd dau ACLI y dylai'r costau fod yn rhesymol ac yn ymwneud yn deg â'r achos dan sylw.

3.127 O ran natur unrhyw gostau ychwanegol, nododd dau ACLI na allant gefnogi unrhyw gostau ychwanegol i ACLlau am gyflawni prosesau statudol. Nodwyd bod ACLlau eisoes yn talu symiau sylweddol am Swyddogion Rhaglen, o ran archwiliadau CDLIau.

- 3.128 Beirniadwyd tegwch y dull o godi ffi am CDLlau gan un ACLI. Nodwyd bod Gweinidogion Cymru yn nodi cyfnod a hyd y broses yn unochrog ac yn codi am y cyfnod hwnnw. Mae'r gallu i estyn y ffordd y gellir codi yn mynd y groes i'r dymuniad i gael proses archwilio fwy effeithlon.
- 3.129 Cafwyd un sylw yn nodi'r gwahaniaeth rhwng y dull arfaethedig o godi am weithdrefnau cymwys a'r ffioedd am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

C15	Ymateb Llywodraeth Cymru
<p>Noda'r ymatebion gefnogaeth gyffredinol i'r dull arfaethedig o godi am ymchwiliadau lleol a gweithdrefnau cymwys. Roedd y prif bryder ynglŷn â'r dull arfaethedig o godi yn canolbwyntio ar ansicrwydd a natur amrywiadwy costau. Er mwyn unioni hyn, bwriedir rhestru'r eitemau y codir amdanynt mewn anfonebau a gyflwynir gan Weinidogion Cymru, er mwyn sicrhau bod ACLlau yn ymwybodol o faint o amser y codir amdano ar bob lefel o staff. Mae'r papur ymgynghori'n nodi'n glir y codir am amser y Swyddog Cynllunio yn y gyfradd ddyddiol i'r Arolygydd ar hyn o bryd. Y cynnig, yn syml, yw gwahanu amser y Swyddog Cynllunio oddi wrth y gyfradd ddyddiol er mwyn sicrhau y gellir codi am amser ar wahân ac yn gywir, a pheidio â chodi am yr un gwasanaeth ddwywaith.</p> <p>Nodwyd y cyfeiriad at wahaniaeth rhwng y dull presennol o godi am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a'r symiau dyddiol safonol a gynigiwyd. Y rheswm dros y gwahaniaeth yw mai proses gwneud cais yw proses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, sy'n gweithredu mewn ffordd wahanol. Ceir tasgau gweinyddol safonol o fewn y broses honno y gellir codi amdanynt fel ffi benodedig, ond yr unig dâl amrywiadaw yw'r tâl am ystyried y cais ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Caiff pob archwiliad ar gyfer CDLI ei deilwra at gymhlethdod y cynllun ac mae'n gofyn am fewnbwn gan lawer mwy o randdeiliaid. Felly, ystyrir mai'r dull o godi a gynigiwyd yn y papur ymgynghori yw'r un mwyaf priodol yn yr achos hwn.</p>	

Y camau nesaf

- 3.130 Bwriedir bwrw ymlaen â'r dull o godi yr ymgynghorwyd yn ei gylch. Yn unol â'r sylwadau a gyflwynwyd, byddwn yn sicrhau bod pob anfoneb sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau cymwys ac ymchwiliadau lleol yn rhestru eitemau, er tryloywder.

C16	A ydych yn cytuno â'r symiau dyddiol safonol a gynigir yn Atodiad Ch? Os nad ydych, pam?					
Mae Atodiad Ch yn nodi'r symiau dyddiol safonol a gynigiwyd am amser yr Arolygydd a chostau staff cyffredinol ar gyfer gweithdrefnau cymwys hyd at 2019. Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a yw'r ymatebwyr yn fodlon ar y symiau a gynigiwyd ac yn gofyn am resymau pam.						
Crynodeb Ystadegol						
Sector		Ydw /Ydyn	Ydw/Ydyn (Yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydw/ydyn	Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
A	Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio	1	0	0	1	2
B	Awdurdodau Lleol (gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)	5	3	2	1	11
C	Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall	0	0	0	4	4
D	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Diddordeb	2	0	0	1	3
E	Y Sector Gwirfoddol	0	0	0	0	0
F	Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir)	2	0	0	1	3
Cyfanswm yr holl ymatebwyr		10	3	2	8	23

	Ydw/Ydyn, yn amodol ar sylwadau	Nac ydw/ydyn
Cyfanswm yr Ymatebwyr yn nodi ymateb	13	2
Cyfanswm y ganran	87%	13%

Adolygiad ystadegol

3.131 Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr â'r symiau dyddiol safonol diwygiedig am weithdrefnau cymwys ac ymchwiliadau lleol. Cytunodd pob grŵp yn unfrydol â'r cynigion, ac eithrio'r ACLlau.

Themâu allweddol

3.132 Mae'r themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 16 fel a ganlyn:

- Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r ffioedd a gynigiwyd, ar yr amod mai dim ond at ddibenion adennill costau y cânt eu codi;
- Mae'r symiau a gynigiwyd yn ymddangos yn gyson â'r symiau a godir ar hyn o bryd.

Trosolwg

3.133 Gan mai ar ACLlau y mae'r cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol yn bennaf, hwy a wnaeth yr holl sylwadau o sylwedd ynglŷn â'r cwestiwn hwn.

3.134 Cytunodd rhai sylwadau gan ACLlau â'r costau a gynigiwyd, yn ddarostyngedig i rai amodau. Yn yr achosion hyn, cytunodd ACLlau, yn amodol ar y canlynol:

- Roedd y dull o godi yn seiliedig ar adennill costau yn unig;
- Nid yw'r costau a gynigiwyd yn arwain at gynnydd sylweddol yn y costau a ysgwyddir gan drethdalwyr;
- Mae'r cynigion yn hyrwyddo effeithlonrwydd drwy'r gwasanaeth cyfan.

3.135 Yn gyffredinol, nodwyd bod y symiau a gynigiwyd yn ymddangos yn gyson â'r symiau dyddiol safonol a godir ar hyn o bryd. Cafodd y cynnig i godi am amser swyddog ar wahân i amser Arolygydd ymateb cadarnhaol ymhlith yr ymatebwyr.

3.136 Lle y cafwyd anghytundeb â'r costau a gynigiwyd, nododd ACLlau mai Llywodraeth Cymru yn hytrach na'r ACLlau ddylai ysgwyddo unrhyw gynnydd.

3.137 Beirniadwyd yr ymgynghoriad gan un ymatebydd am beidio â nodi'n glir sut y bydd y costau newydd yn wahanol i'r hen gostau, ac felly, nid yw'r effaith yn glir.

C16 Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae ein cynigion yn ailddatgan yr egwyddorion o reoli cyllid cyhoeddus i sicrhau y caiff costau eu hadennill yn llawn. Mae ymgynhoreion wedi cydnabod bod cost yn gysylltiedig â gweinyddu ac archwilio gweithdrefnau cymwys ac ymchwiliadau cyhoeddus, ond rydym yn anghytuno mai Gweinidogion Cymru ddylai'r ysgwyddo'r costau. Nid yw'n fwriad cael elw o'r symiau dyddiol safonol, gan fod hyn yn mynd yn groes i egwyddorion cyllid cyhoeddus.

Y camau nesaf

- 3.138 O ystyried y gefnogaeth gyffredinol i'r symiau dyddiol safonol a godir, byddwn yn ceisio pennu'r symiau hyn mewn offeryn statudol. Caiff hyn ei ategu gan dabl clir o daliadau a godir, yn debyg i'r hyn a ddangosir yn Atodiad Ch i'r papur ymgynghori.

D/C	Sylwadau pellach
Pan wnaeth ymatebwyr sylwadau na ellid eu cofnodi na'u hystyried gan yr ymgynghoriad o dan Gwestiynau 1-16, maent wedi'u gosod yma.	

Trosolwg

- 3.139 Cyflwynodd rhai ymatebwyr sylwadau ychwanegol i dynnu sylw at faterion penodol yr oeddent yn gofyn am ragor o eglurder yn eu cylch. Ymdrinnir â'r rhain yn ôl thema isod:

Egwyddor y newidiadau a gynigiwyd

- 3.140 Cafwyd un sylw o blith y categori Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio yn nodi y bydd y newidiadau a gynigiwyd i gyflymu'r broses ar draul y penderfyniad cywir, ac nad ydynt felly yn hyrwyddo tegwch. Nodwyd nad oedd y cynigion yn cynnig y newid mawr yr oedd ei angen i hyrwyddo twf, ac y byddant yn arwain at leihad ansylweddol mewn amser o gymharu â'r broses bresennol.

Terfynau amser statudol i Weinidogion Cymru

- 3.141 Gofynnodd un sylw o blith y categori Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio ac un sylw o blith y categori Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Diddordeb am gyfnod statudol o 8 wythnos y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad oddi mewn iddo, yn sgil argymhelliad gan Arolygydd (yn achos apeliadau a adferwyd a cheisiadau a alwyd i mewn).

Ymgylgoreion

- 3.142 Cyflwynodd rhai ymatebwyr awgrymiadau ar gyfer cyrff i'w cynnwys fel ymgylgoreion statudol ac anstatudol.

Dilysu apeliadau

- 3.143 Roedd un sylw o blith y categori Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio ac un sylw o blith Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Diddordeb yn cefnogi'r cysyniad o ofyniad dilysu statudol o 7 diwrnod. Ar hyn o bryd, ceir terfyn amser amhenodol i hyn, sy'n cael effaith sylweddol o ran 'rhoi sicrwydd i ddatblygwyr'.

Dull amgen o ddatrys anghydfod

- 3.144 Awgrymodd un ymatebydd o blith y categori Eraill y dylid defnyddio'r Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod ar gam y Cais Cynllunio a'r cam Apelio. Nododd

yr ymatebydd y gall dull o'r fath helpu i atal apeliadau cynllunio diangen ac y gallai gyflymu'r broses o ganiatáu datblygiadau.

D/C	Ymateb Llywodraeth Cymru
	<p><i>Egwyddor y newidiadau a gynigiwyd</i></p> <p>Cydnabyddir y sylw hwn. Bwriedir i'r newidiadau a gynigiwyd i'r broses apelio gynnig mwy o degwch a sicrwydd i bob parti, a hyrwyddo twf. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ffordd y gellir gwella'r system gynllunio drwy'r amser. Byddai'n croesawu sylwadau eraill ynglŷn â sut y gellir gwneud gwelliannau er mwyn cefnogi'r nodau hyn.</p> <p><i>Terfynau amser statudol i Weinidogion Cymru</i></p> <p>Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i ategu'r cynnig ar gyfer cyfnod statudol y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad oddi mewn iddo, yn dilyn adfer apêl. Ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru darged o 12 wythnos i wneud penderfyniadau yn unol ag ef. Awgryma data o 2014/15 a 2015/16 fod Gweinidogion Cymru yn cyflawni eu targed o 12 wythnos yn achos dros 90% o benderfyniadau a wneir ganddynt. Cyhoeddir perfformiad Gweinidogion Cymru o ran gwneud penderfyniadau gan Weinidogion Cymru ochr yn ochr â Pherfformiad ACLlau.</p> <p><i>Ymgylgoreion</i></p> <p>Nid yw ychwanegiadau at y rhestr o ymgylgoreion statudol yr Atodlen 4 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 o fewn cwmpas yr ymgynghoriad hwn.</p> <p><i>Dilysu apeliadau</i></p> <p>Nid ydym wedi cael fawr ddim dystiolaeth negyddol hyd yma ynglŷn â pherfformiad yr Arolygiaeth Gynllunio o ran dilysu apeliadau. Ystyrid y byddai cyfnod dilysu statudol yn anghynhyrchiol gan y byddai unrhyw her i achos o ddiffyg dilysu yn cael ei chyflwyno i'r llysoedd. Byddai hyn yn ychwanegu'n sylweddol at yr amser a gymerir i benderfynu ar apêl.</p> <p><i>Dull amgen o ddatrys anghydfod</i></p> <p>Ystyriwyd dull amgen o ddatrys anghydfod gan y Grŵp Cynghori Annibynnol yn ei adolygiad o'r system gynllunio yng Nghymru. Yn sgil ei argymhelliad, daethpwyd i'r casgliad y byddai'n anodd ymgorffori gweithdrefn hyblyg ar gyfer datrys anghydfod, lle mae apêl yn aml yn codi o wahaniaeth barn sylfaenol ynglŷn â theilyngdod datblygiad.</p> <p>Drwy'r papur ymgynghori, rydym wedi cyflwyno darpariaethau sy'n atal</p>

amrywiadau, diwygiadau neu faterion neu wybodaeth newydd ynglŷn ag apeliadau rhag cael eu cyflwyno unwaith bod apeliadau wedi'u cyflwyno. Rydym o'r farn y bydd y darpariaethau hyn yn annog ACLlau ac ymgeiswyr i drafod unrhyw bryderon neu welliannau i gynigion unigol, a fydd yn gwella cydberthnasau gwaith rhwng y partïon hynny.

ATODIAD A - RHESTR O YMATEBWYR YN ÔL CATEGORI

A1.1 Noda'r tabl isod y categorïau yr oedd ymatebwyr wedi'u dewis iddynt hwy eu hunain wrth gwblhau'r ffurflen ymgynghori. At ddibenion diogelu data mae manylion enw a chyfeiriad yr ymatebwyr hynny nad oeddent am gael eu nodi wedi cael eu tynnu oddi ar y mynegai isod a'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd:

Busnesau / Ymgynghorwyr Cynllunio		Awdurdod Cynllunio Lleol	
016	Redrow Homes	002	CBS Merthyr Tudful
017	Innogy Renewables UK Ltd	003	Parciau Cenedlaethol Cymru
Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall		004	Cyngor Gwynedd
001	Yr Awdurdod Glo	005	CBS Caerffili
006	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch	007	CBS Casnewydd
008	Cyfoeth Naturiol Cymru	011	Dienw
019	Cyngor Tref Penarth	014	Dienw
Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Diddordeb		015	CBS Pen-y-bont ar Ogwr
012	RTPI Cymru	018	Cyngor Bro Morgannwg
020	Cymdeithas y Cyfreithwyr	022	CS Sir y Fflint
021	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi	023	CBS Castell-nedd Port Talbot
Arall		Y Sector Gwirfoddol	
009	CLA Cymru		Dim
010	Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru		
013	Persimmon Homes		